

Cynnwys

TGAU CBAC mewn DAEARYDDIAETH A

I'w Addysgu o 2012 I'w Ddyfarnu o 2014



	Tudalen
Crynodeb o'r Asesiad	2
Rhagarweiniad	3
Cynnwys y Fanyleb	7
Cynllun Asesu	20
Dyfarnu, Adrodd ac Ailsefyll	24
Gweinyddu'r Asesiad dan Reolaeth	25
Disgrifiadau o'r Graddau	44
Y Cwricwlwm Ehangach	46

Manyleb linol yw hon: rhaid cymryd pob asesiad ar ddiwedd y cwrs.

DAEARYDDIAETH A

CRYNODEB O'R ASESIAD

Uned 1: Craidd Daearyddiaeth (40%) Papur Ysgrifenedig: 1 awr 45 munud (S/U) 90 marc (80 GMU)
Chwe chwestiwn byr gorfodol strwythuredig ymateb i ddata, un cwestiwn o bob un o'r themâu craidd. Bydd elfen o ryddiaith estynedig i bob un o'r cwestiynau hyn.
Uned 2: Daearyddiaeth Dewisiadau (35%) Papur Ysgrifenedig: 1 awr 15 munud (S/U) *72 marc (70 GMU)
Tri chwestiwn strwythuredig ymateb i ddata manwl gydag ysgrifennu estynedig - un ffisegol, un dynol ac un arall a ddewisir o'r tair thema ddewisol ffisegol a'r tair thema ddewisol ddynol.
Uned 3: Ymholiad Daearyddol: (25%) Asesiad dan Reolaeth 100 marc (50 GMU)
Ymchwiliad yn seiliedig ar waith maes (10%) ac ar ymarfer penderfynu a datrys problemau (15%)

*Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys marciau ychwanegol am sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir.

DARPARIAETH YR ASESU A'R ARDYSTIO

	Cod Cofrestru		O fis Mehefin 2014
	Pwnc	Opsiwn*	
Uned 1	4231	01 neu W1 (S)	✓
	4231	02 neu W2 (U)	✓
Uned 2	4232	01 neu W1 (S)	✓
	4232	02 neu W2 (U)	✓
Uned 3	4233	01 neu W1	✓
Dyfarniad Pwnc	4230	LA neu UL	✓

* Codau Opsiwn

Cyfrwng Saesneg 01, Cyfrwng Cymraeg W1 - ar gyfer unedau
Cyfrwng Cymraeg UL, Cyfrwng Saesneg LA - ar gyfer dyfarniad pwnc

Rhif Achredu'r Cymhwyster: 600/5143/7

Manyleb linol yw hon: rhaid cymryd pob asesiad ar ddiwedd y cwrs.

DAEARYDDIAETH (A)

1

RHAGARWEINIAD

1.1 Sail Resymegol

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar agweddau a strategaethau manyleb gyfredol TGAU Daearyddiaeth A (asesiad terfynol 2013). Mae'n cydymffurfio â'r holl ddogfennau rheoleiddiol perthnasol.

Mae'r fanyleb yn adeiladu ar y cysyniadau a'r sgiliau allweddol a bennwyd yn y rhaglen astudio cyfnod allweddol 3 ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. **Amcan** y cymhwyster yw paratoi'r ymgeiswyr at symud ymlaen i'r TAG Daearyddiaeth, neu, yn wir at bynciau TAG eraill ym maes y dyniaethau neu'r gwyddorau cymdeithasol fel TAG Datblygiad y Byd neu bynciau TAG ym maes y gwyddorau daear fel TAG Gwyddor Amgylcheddol.

Rhesymeg arwahanol y fanyleb hon yw astudio daearyddiaeth drwy ddefnyddio fframwaith thematig cytbwys o themâu ffisegol a dynol, a gwneud hynny o fewn fframwaith y meini prawf cyffredinol a phwnc-benodol statudol ynghyd â'r gofynion i symud ymlaen ac i gael cyfleoedd cwricwlwm ehangach (Adran 7). Anogir yr ymgeiswyr, ym mhob thema, i ddefnyddio dull ymholi wrth drafod amrywiaeth o leoedd a chysyniadau penodol. Caiff lled cynnwys pwnc y meini prawf pwnc ar gyfer daearyddiaeth ei gwrdd yn Uned 1. Archwilir cynnwys pwnc y meini prawf pwnc ar gyfer daearyddiaeth yn fanylach yn y themâu opsiynol a gyflwynir yn Uned 2. Gall athrawon, drwy ddilyn y dull thematig hwn, fod yn fwy hyblyg wrth ddethol cynnwys penodol a phrofiadau dysgu ac i ddatblygu cwricwlwm a all alluogi'r ymgeiswyr i gwrdd â'r canlyniadau dysgu a bennwyd. Lluniwyd cwestiynau'r themâu opsiynol sy'n rhan o Uned 2 gydag amcanion asesu o'r un pwysiad er mwyn creu lefelau cymharol o alw i'r ymgeiswyr hynny sy'n dilyn llwybrau gwahanol drwy'r papur hwn.

Mae'r themâu opsiynol yn Uned 2 yn rhoi cyfle i ymgeiswyr yng Nghymru i gymhwyso'u dealltwriaeth ddaearyddol at faterion cymhleth sy'n achosi pryder sy'n effeithio ar eu bywydau eu hunain yma yng Nghymru, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Fel cyfanwaith, mae'r fanyleb hon yn rhoi her i'r ymgeiswyr i ystyried eu swyddogaeth fel dinasyddion gweithgar a'r rhan y mae ganddynt i'w chwarae o ran creu dyfodol daearyddol cadarnhaol yng Nghymru neu Loegr, neu hyd yn oed yn fyd-eang.

Erbyn y byddant yn 14+ oed bydd dysgwyr yn Lloegr eisoes wedi archwilio amrywiaeth o faterion mewn cyd-destun daearyddol, a thrwy wneud hyn, yn caffael amrywiaeth o sgiliau a chymwyseddau daearyddol. Bydd dysgwyr wedi datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau daearyddol allweddol yn cynnwys:

- lle;
- gofod;
- graddfa;
- cyd-ddibyniaeth;
- rhyngweithiad amgylcheddol;
- prosesau ffisegol a dynol;
- dealltwriaeth ac amrywiaeth diwylliannol.

Yn ystod y rhaglen astudio cyfnod allweddol 3, bydd dysgwyr yng Nghymru wedi cael y cyfle i:

- ddod o hyd i leoedd;
- deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau;
- datblygu eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth daearyddol drwy ddysgu am leoedd, amgylcheddau a materion ar amrywiol raddfeydd mewn lleoliadau dethol yng Nghymru, yr Undeb Ewropeaidd a'r byd yn ehangach;
- cynnal ymchwiliadau daearyddol;
- datblygu barn, asesu tuedd a chyfleu casgliadau.

Mae'r fanyleb yn adeiladu ar y rhaglen astudio cyfnod allweddol 3 i ddysgwyr yng Nghymru a Lloegr drwy sicrhau fod canlyniadau'r dysgu yn:

- atgyfnerthu'r cysyniadau allweddol hyn ar lefelau sy'n cynyddu mewn dyfnder a chymhlethdod;
- darparu cyfleoedd ar gyfer astudio amrywiaeth gyfoethog o leoedd ar amrediad o raddfeydd ac ar gyfer datblygu fframwaith o ymwybyddiaeth ofodol o'r raddfa leol drwedd i'r raddfa fyd-eang;
- gofalu bod ymgeiswyr yn gwerthfawrogi perthnasedd y pwnc i'w byd hwy eu hunain ac i'r byd o'u cwmpas sy'n newid yn gyflym;
- datblygu diddordeb personol yn y pwnc – pam y mae daearyddiaeth yn golygu rhywbeth;
- datblygu eu cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang a chydabod sut y gallant chwarae rhan bwysig mewn datblygiad cynaliadwy;
- cynnwys amrediad eang o gyfleoedd ar gyfer dysgu am y byd o'u cwmpas drwy waith maes;
- caniatáu cynnydd mewn annibyniaeth yn y broses ddysgu drwy ddatblygu ymhellach eu sgiliau daearyddol, technolegau newydd a'r broses ymholi;
- rhoi cyfle i ymgeiswyr yng Nghymru ddatblygu eu dysgu fel rhan o gymhwyster Canolradd Bagloriaeth Cymru.

1.2 Nodau a Chanlyniadau Dysgu

Nodau

Dylai dilyn cwrs TGAU Daearyddiaeth A annog ymgeiswyr i gael eu hysbrydoli, eu gwefreiddio a'u newid drwy ddilyn cwrs astudio eang a chydlynol, sy'n bodloni ac sy'n werth chweil ac yn treiddio ymhellach i sectorau cysylltiedig. Dylai baratoi dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am gyfleoedd dysgu pellach a dewisiadau gyrfa.

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r fanyleb alluogi ymgeiswyr i:

- ymroi yn weithredol yn y broses o ddaearyddiaeth ar gyfer datblygu yn ddysgwyr effeithiol ac annibynnol ac yn feddylwyr beirniadol ac adlewyrchol gyda meddyliau chwilfrydig;
- datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau daearyddol a gwerthfawrogi perthnasedd y cysyniadau hyn i'n byd newidiol;
- datblygu fframwaith o ymwybyddiaeth ofodol sy'n fodd i werthfawrogi pwysigrwydd lleoliad manau ac amgylcheddau ar raddfeydd sy'n ymestyn o'r lleol i'r byd-eang;

- gwerthfawrogi'r hyn sy'n wahanol ac yn debyg rhwng safbwyntiau pobl ar y byd, ei amgylcheddau, ei gymdeithasau a'i ddiwylliannau;
- deall arwyddocâd gwerthoedd ac agweddau at ddatblygu a datrys materion;
- datblygu eu cyfrifoldebau fel dinasyddion byd a chydabod sut y gallant gyfrannu at ddyfodol sy'n gynaliadwy a chynhwysol;
- datblygu a chymhwyso eu dysg i'r byd go iawn drwy waith maes a dulliau dysgu eraill y tu allan i'r ystafell ddosbarth;
- defnyddio sgiliau daearyddol, technolegau, ymholiadau a dadansoddiadau priodol.

1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Er nad oes unrhyw ofyniad penodol am ddysgu blaenorol, mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar Raglenni Astudio diwygiedig y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Daearyddiaeth Sylfaenol a Chyfnodau Allweddol 2 a 3. Mae'n adeiladu ar y fframwaith sgiliau ar gyfer ymholiad daearyddol, lleoedd a themâu Daearyddiaeth CC Cymru a fframwaith cysyniadol CC Lloegr.

Gall ymgeiswyr sydd wedi dilyn cwrs mewn TGAU Daearyddiaeth symud ymlaen i Ddaearyddiaeth Uwch Gyfrannol ac Uwch, pynciau eraill Safon Uwch a chysiau galwedigaethol uwch.

Gall unrhyw ymgeisydd, heb ystyried ei gefndir rhyw, ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol, ddilyn y fanyleb hon. Nid yw'r fanyleb hon ar gyfer unrhyw oedran penodol ac felly, mae'n darparu cyfleoedd i ymgeiswyr ehangu eu dysgu gydol oes.

1.4 Cydraddoldeb ac Asesu Teg

Mae arholiadau TGAU yn aml yn gofyn am ystod eang o gymwyseddau. Mae hyn oherwydd eu bod yn gymwysterau cyffredinol ac felly, yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer ystod eang o alwedigaethau a chysiau lefel uwch.

Mae cymhwyster y TGAU diwygiedig a meini prawf y pynciau wedi eu hadolygu i ddarganfod a oedd unrhyw gymwyseddau sy'n ofynnol gan y pwnc yn achosi rhwystr posibl i unrhyw ymgeiswyr anabl. Os felly, adolygwyd y sefyllfa unwaith eto i sicrhau na fyddai cymwyseddau o'r fath yn cael eu cynnwys ond lle roedd hynny'n hanfodol i'r pwnc. Trafodwyd y darganfyddiadau a ddeilliodd o'r broses hon gyda grwpiau anabledd a phobl anabl.

Mae'r gofynion o safbwynt gwaith maes yn ddigon hyblyg fel y gall yr holl ymgeiswyr gymryd rhan. Fodd bynnag, gall yr ymgeiswyr sydd â nam ar eu golwg gael anhawster i arddangos sgiliau perthnasol ar gyfer dehongli gwybodaeth ddaearyddol sy'n cynnwys, er enghraifft, mapiau, delweddaeth lloeren, mapiau 3-D a mapiau lliw.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl i'w galluogi i gael mynediad i'r asesiadau. Am y rheswm hwn, ychydig iawn o ymgeiswyr fydd â rhwystr llwyr i unrhyw ran o'r asesiad. Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau sef *Rheoliadau ac Arweiniad: Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) (www.jcq.org.uk) yn Saesneg ac yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk).

Efallai y bydd ymgeiswyr na fydd rhan sylweddol o'r asesiad o fewn eu cyrraedd o hyd, hyd yn oed ar ôl archwilio pob posibilrwydd trwy addasiadau rhesymol, yn dal i allu derbyn dyfarniad. Byddent yn cael gradd ar sail y rhannau o'r asesiad a gymerwyd ganddynt a byddai'n cael ei nodi ar eu tystysgrif nad yw'r holl gymwyseddau wedi'u cyflawni. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu ac efallai y caiff ei newid yn y dyfodol.

1.5 Codau Dosbarthu

Rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol i bob manyleb sy'n nodi i ba faes pynciol y mae'n perthyn. Y cod dosbarthu ar gyfer y fanyleb hon yw 3910.

Dylai canolfannau nodi, yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n cofrestru am fwy nag un cymhwyster TGAU gyda'r un cod dosbarthu, mai un radd yn unig (yr uchaf) a gyfrifir at ddibenion Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau.

Gall canolfannau gynghori ymgeiswyr, os byddant yn dilyn dwy fanyleb gyda'r un cod dosbarthu, y bydd ysgolion a cholegau yn debygol iawn o farnu eu bod wedi cyflawni un yn unig o'r ddwy TGAU. Gellir hefyd gymryd yr un agwedd os bydd ymgeiswyr yn dilyn dwy fanyleb TGAU sydd â chodau dosbarthu gwahanol ond sydd â gorgyffwrdd sylweddol o ran cynnwys. Dylai ymgeiswyr sydd ag unrhyw amheuan ynghylch eu cyfuniadau o bynciau gysylltu â'r sefydliad y dymunant symud ymlaen iddo cyn cychwyn ar eu rhaglenni.

2

CYNNWYS

Rhennir cynnwys y fanyleb a asesir yn allanol yn ddwy uned; pob un â chynnwys cytbwys o themâu ffisegol a dynol. Rhennir yr uned graidd yn dair thema ffisegol a thair thema ddynol gyda gwybodaeth greiddiol o brosesau a phatrymau allweddol sy'n sail i ddeall rhyngweithiadau amgylcheddol a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd cynaliadwyedd yn y rhyngweithiadau hynny. Mae'r unedau dewisol yn cynnig dewis o dair thema ffisegol a thair thema ddynol, pob un yn ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau allweddol. Mae'r ymgeiswyr yn dewis **un** dewis ffisegol, **un** dewis dynol ac **un** arall.

Mae'r **themâu** a ddewiswyd i'w hastudio yn golygu bod yr ymgeiswyr yn gweithio ar wahanol raddfeydd, mewn rhannau gwahanol o'r byd yn cynnwys y Deyrnas Unedig a Chymru, Ewrop, Affrica is-Sahara a De Asia.

Mae angen astudio amrywiaeth o **leoedd** ar amrywiaeth o raddfeydd mewn gwahanol rannau o'r byd ac mewn gwahanol fathau o amgylchedd.

Darlunnir yn y ddwy uned gyfraniad **prosesau** ffisegol a dynol i ddatblygiad **patrymau** daearyddol, nodweddion daearyddol lleoedd ac amgylcheddau arbennig, a'u cyd-ddibyniaeth.

Drwy gydol y fanyleb canolbwyntir ar y gydberthynas rhwng pobl a'r amgylchedd. Mae ystyriaethau o **ddatblygiad cynaliadwy** sy'n effeithio ar gynllunio a rheoli amgylcheddau ac adnoddau yn treiddio drwy'r fanyleb gyfan. Mae mater cynaliadwyedd ar wahanol raddfeydd ac mewn gwahanol gyd-destunau yn eglur drwy'r fanyleb.

Mae'r fanyleb yn dangos agweddau daearyddol nifer o **faterion cyfoes** cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol. Mae'r fanyleb yn sicrhau bod y darluniadau i'w hastudio yn dal yn rhai cyfoes drwy ganiatáu dewis o ddarluniau astudiaeth achos.

Mae'r fanyleb yn rhoi cyfleoedd i'r ymgeiswyr archwilio dyfodol daearyddol gwahanol mewn amrediad eang o gyd-destunau. Mewn byd sy'n newid yn gyflym, mae'r fanyleb yn archwilio tueddiadau cyfredol a safbwyntiau gwahanol er mwyn i'r ymgeiswyr gael y wybodaeth sydd ei hangen i ddamcaniaethu am ddyfodol gwahanol. O wneud hyn, dylai ymgeiswyr ystyried eu rôl eu hunain yn y gymdeithas a'u rhan nhw o ran creu dyfodol daearyddol cadarnhaol.

Mae'r defnydd cywir a phriodol o **eirfa ddaearyddol** yn cael ei wobrwyo yn yr asesiad allanol a mewnol.

Sgiliau a thechnegau a ymgorfforwyd yn y fanyleb

Wrth feithrin dealltwriaeth o'r syniadau a amlinellwyd yn y fanyleb, bydd yr ymgeisydd yn mynd i'r afael â gweithgareddau sy'n cynnwys cymhwyso sgiliau, rhai ymholi'n benodol.

Mae'r fanyleb yn gofyn am asesu gallu'r ymgeisydd i wneud y canlynol:

- adnabod, dadansoddi a gwerthuso cwestiynau a materion daearyddol perthnasol;
- penderfynu ar ddilyniannau ymchwilio priodol gan ymgorffori sgiliau daearyddol, yn cynnwys sgiliau ymholi;
- dethol a dehongli gwybodaeth o amrywiol ffynonellau gwahanol, yn cynnwys arsylwadau maes, mapiau (yn cynnwys mapiau Arolwg Ordnans ar wahanol raddfeydd), graffiau, lluniadau, ffotograffau (delweddau lefel y ddaear, awyrluniau a lloeren), diagramau a thablau;
- disgrifio, dadansoddi a dehongli tystiolaeth, gwneud penderfyniadau, dod i gasgliadau a'u cyfiawnhau a chyfleu'r casgliadau mewn ffordd sy'n briodol i gynulleidfa'r dasg;
- gwerthuso dulliau o gasglu, cyflwyno a dadansoddi tystiolaeth, a dilysrwydd a chyfyngiadau'r dystiolaeth a'r casgliadau.

Bydd yr ymgeisydd yn defnyddio amrywiaeth o'r sgiliau hyn wrth ymgymryd â gwaith daearyddol. Yn fanwl, ceir sgiliau deallusol fel deall a dehongli data, dadansoddi gosodiadau ac adroddiadau, y gallu i ddatblygu barn a rhoi casgliadau at ei gilydd. Mae cyfathrebu hefyd yn un o'r sgiliau pa un ai y gwneir hynny'n ysgrifenedig, trwy ddiagram, trafod ar lafar neu ar rhyw ffurf o gyfryngau gweledol. Mae sgiliau sy'n gymdeithasol eu naws hefyd, a gall gweithgareddau grŵp annog a hwyluso'r rhain.

Un o'r adnoddau sy'n gwbl hanfodol i'r ddaearyddwr yw **mapiau**, ac mae disgwyl i'r ymgeiswyr allu defnyddio mapiau sy'n deillio o amrywiol ffynonellau, yn cynnwys rhai o'r canlynol:

- (a) ar amrywiol raddfeydd, o fapiau'r byd sydd i'w cael mewn atlasau a mapiau tramor, i gynlluniau lleol manwl;
- (b) o'r Arolwg Ordnans, y Swyddfa Dywydd, y cyfryngau a chwmnïau teithio;
- (c) at ddibenion amrywiol, yn cynnwys defnydd tir, rhagolygon y tywydd, canfod y ffordd a chyhoeddusrwydd;
- (ch) defnyddio amrywiaeth o dechnegau gwahanol, yn cynnwys mapiau topograffig, mapiau coropleth, isopleth a symbolau.

Yn ystod y cwrs, mae'n arbennig o bwysig rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddefnyddio mapiau'n ymarferol, yn arbennig y mapiau hynny fydd yn gyfarwydd iddynt yn eu bywydau bob dydd.

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr ddefnyddio a dehongli amrywiaeth o fapiau a gallu llunio llinfapiau.

Mae'r fanyleb hefyd yn pwysleisio ac yn rhoi cyfleoedd i gaffael a defnyddio sgiliau traws-gwricwlwaidd a sgiliau allweddol fel cyfathrebu, cymhwyso rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Gweler Adran 7 Y Cwricwlwm Ehangach ar dudalen 47.

Mae Daearyddiaeth yn bwnc delfrydol i'r ymgeiswyr allu dangos y defnydd o TGCh mewn ffordd berthnasol a defnyddiol, ac mae'n ddymunol i'r sgiliau TGCh canlynol gael eu hymgorffori i mewn i addsygu a dysgu'r fanyleb, lle y bo'n briodol gwneud hynny:

- (i) defnyddio Systemau Gwybodaeth Daearyddol (GIS): e.e. dadansoddi peryglon llifogydd sydd i'w cael mewn amgylcheddau afon neu arfordirol gan ddefnyddio'r mapiau rhyngweithio ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd;
- (ii) cyfathrebu gwybodaeth e.e. prosesu geiriau a defnyddio cyfrifiadur i luniadu graffiau bar;
- (iii) prosesu gwybodaeth e.e. defnyddio cronfa ddata neu daenlen gyfrifiadurol i ddadansoddi canlyniadau gwaith maes;
- (iv) efelychu e.e. defnyddio rhaglen gyfrifiadurol i efelychu sefyllfa megis effaith twf yn y boblogaeth, neu symudiad pobl i mewn i ddinas;
- (v) synhwyro o bell e.e. defnyddio prôb electronig i fesur tymheredd; defnyddio delwedd lloeren tywydd fyw.

Dylid nodi nad yw'r rhain yn sgiliau arwahanol o angenrheid, a bod modd defnyddio cyfuniad ohonynt yng nghyd-destun un gweithgaredd.

Mae'r ffaith y disgwylir fod sgiliau ymholi yn treiddio drwy raglen ddysgu yn cael ei adlewyrchu gan natur yr asesiad allanol lle yr ymgorfforir sgiliau ymholi yn y cwestiynau ymateb i ddata. Mae'r asesiad dan reolaeth yn ymwneud â thasg benderfynu a/neu ddatrys problem a thasg ar waith maes. Mae'r tabl isod yn nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer ymholi a gallant fod yn arf gyfeirio ddefnyddiol ar gyfer gofalu bod ymgeiswyr yn ymroddi i ystod o weithgareddau yn eu gwaith.

Sgiliau ymholi	Technegau perthynol
<p>1. Nodi cwestiynau a materion daearyddol</p> <p>Sefydlu dilyniannau ymchwilio addas</p>	<p>map meddwl</p> <p>diagram llif o ddilyniant ymchwilio addas</p> <p>samplu</p>
<p>2. Nodi a chasglu tystiolaeth o</p> <p>ffynonellau cynradd</p> <p>ffynonellau eilaidd</p> <p>ffynonellau seiliedig ar TGCh</p> <p>Cofnodi data</p> <p>Cyflwyno data</p>	<p>casglu data drwy gyfrwng gwaith maes</p> <p>mapiau (llinfap, coropleth, isopleth, Ordnans – ar raddfeydd 1:50,000, 1:25,000) a mapiau eraill - tywydd, cyfryngau, teithiau a chyhoedduswydd;</p> <p>ffotograffau (fertigol ac arosgo) a delweddau loeren</p> <p>data ystadegol</p> <p>ffynonellau data eraill e.e. papur newydd</p> <p>data'n deillio o TGCh</p> <p>SGD (GIS)</p> <p>dewis a defnyddio technegau cofnodi addas</p> <p>trawsffurfio data yn:</p> <p>fapiau (llinfap, coropleth, isopleth)</p> <p>graffiau (llinell, histogram, cylch, gwasgariad, trawstoriadau)</p>
<p>3. Disgrifiad</p> <p>Dadansoddi [gan ddefnyddio ystadegau]</p> <p>Dehongli tystiolaeth</p>	<p>disgrifiad ysgrifenedig o'r patrymau a welwyd yn y data a restrwyd uchod gan ddefnyddio termau daearyddol e.e. gogledd, clwstwr</p> <p>dadansoddi data gan ddefnyddio cyfartaledd ac amrediad</p> <p>eglurhad o'r patrymau a welwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar fapiau yn cynnwys mapiau tywydd, graffiau, ffotograffau (awyr fertigol, arosgo, lefel y ddaear) delwedd loeren; • mewn testun, diagramau, data rhifiadol.
<p>4. Gwneud penderfyniadau</p> <p>Llunio a chyfiawnhau casgliadau</p> <p>Gwerthuso</p> <ul style="list-style-type: none"> • dulliau casglu, cyflwyno a dadansoddi tystiolaeth, • dilysrwydd a chyfyngiadau tystiolaeth a chasgliadau. 	<p><i>Ymarferion/gemau chwarae rhan [awgrymiadau dysgu yn unig]</i></p> <p>Ymarferion datrys problemau / penderfynu</p> <p>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth ddaearyddol</p>
<p>5. Cyfathrebu'r darganfyddiadau mewn ffyrdd priodol ar gyfer y dasg a'r gynulleidfa</p>	

Mae disgrifiadau o'r themâu yn y fanyleb wedi eu rhannu'n dair colofn.

DIM OND Y DDWY GOLOFN GYNTAF SY'N FFURFIO MANYLEB YR ARHOLIAD

Cwestiwn Allweddol	Cwestiynau Ymholi	Engbreiffiad
<p>Y cwestiwn sy'n cyflwyno canolbwynt yr ymchwiliad.</p> <p>Gall athrawon fod yn hyderus y bydd y papurau arholiad yn seiliedig ar y Cwestiynau Allweddol hyn a'u Cwestiynau Ymholi cysylltiedig</p>	<p>Mae'r rhain yn datgymalu'r Cwestiynau Allweddol yn fframwaith trefnus ac yn cyflwyno llwybr ymholi sy'n manylu'r wybodaeth sydd ei hangen i ddatblygu'r Cwestiynau Allweddol.</p>	<p><i>Mae'r rhain yn rhoi naill ai dull posibl o addysgu neu, drwy e.e. enwi engbreiffiau o leoedd neu bynciau a fyddai'n cyflenwi gofynion y fanyleb ar gyfer y Syniad Allweddol hwn. NID yw'r golofn hon yn orfodol gan mai'r athro sydd i benderfynu ar y dull o addysgu.</i></p>

Mae'r fanyleb yn rhoi cyfle i'r athro i ddethol engbreiffiau priodol o leoedd a phynciau sy'n cefnogi cwestiynau'r ymholiad ar amrywiaeth o gyd-destunau gofodol ac amrywiaeth o raddfeydd.

Mae'n hanfodol fod y meysydd i'w hastudio yn cael eu dewis yn ofalus fel nad yw'r engbreiffiau yn cael eu hystyried ar wahân, ond yn cael eu gosod mewn cyd-destun o ymwybyddiaeth ofodol ehangach.

Erbyn diwedd y cwrs, bydd yr ymgeiswyr wedi cael y cyfle i gyfuno'r syniadau a'r engbreiffiau a astudiwyd ar gyfer darparu agwedd synoptig o'r byd daearyddol y maent yn byw ynddo.

Un o'r ffyrdd y gellir cyflawni hyn yw drwy asesiad dan reolaeth. Anogir canolfannau i ddewis dwy dasg gysylltiedig o'r un thema ar gyfer datblygu dealltwriaeth synoptig well drwy gymhwyso cwestiynau penodol i fyd ehangach daearyddiaeth.

Uned 1 – Y Craidd

Astudiwch bob un o'r chwe thema

A. Y Byd Ffisegol

1. Dŵr
 - Prosesau a thirffurfiau afon
 - Rheoli afonydd
2. Newid Hinsawdd
 - Achosion ac effeithiau
 - Lleihau ei effaith
3. Byw mewn Cylchfa Weithredol
 - Peryglon ar ymylon platiau
 - Lleihau'r risg

B. Y Byd Global

4. Poblogaethau Newidiol
 - Dosbarthiad poblogaeth byd
 - Newidiadau mewn dosbarthiad a strwythur yn y dyfodol
5. Cyd-ddibyniaeth
 - Tueddiadau mewn globaleiddio
 - Effeithiau globaleiddio
6. Datblygiad
 - Mesur patrymau datblygiad
 - Cyflawni Cyrchnodau Datblygiad y Mileniwm

Uned 2 – Dewisiadau

Dewiswch 3 thema – un ffisegol, un ddynol ac un arall

A. Dewisiadau Ffisegol

<p>7. Ein Morlin Newidiol</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Prosesau a thirffurfiau arfordirol ➤ Rheoli arfordiroedd ➤ Morlinau'r dyfodol
<p>8. Tywydd a Hinsawdd</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Patrymau hinsawdd yn y DU ➤ Peryglon tywydd ➤ Lleihau'r risgiau
<p>9. Pethau Byw</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Y blaned fyw ➤ Rheolaeth ➤ Gwahanol fathau o ddyfodol

B. Dewisiadau Dynol

<p>10. Twristiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Natur newidiol twristiaeth ➤ Effaith twristiaeth ➤ Twf cynaliadwy twristiaeth
<p>11. Newidiadau mewn Adwerthu a Bywyd Trefol</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Canol dinas newidiol ➤ Patrymau newidiol adwerthu ➤ Gwahanol fathau o ddyfodol
<p>12. Newid Economaidd a Chymru</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Patrymau gwaith a chyflogaeth cyfoes ➤ Cyflogaeth yn y dyfodol ➤ Dyfodol egni yng Nghymru

**UNED 1 – Y Craidd
A – Y Byd Ffisegol**

Cwestiynau allweddol	Cwestiynau Ymholi	Enghreifftiad
<p>Thema 1 Dŵr</p> <p>1. 1. Beth yw prosesau afon a pha dirffurfiau y maent yn eu creu?</p> <p>2. Sut y dylid rheoli afonydd?</p>	<p>1.1 Pa brosesau sy'n gysylltiedig ag afonydd?</p> <p>1.2 Pa dirffurfiau sy'n ganlyniad y prosesau hyn? Rhaid cynnwys sôn am ystumiau afon.</p> <p>1.3 Sut y mae'r tirffurfiau a'r prosesau hyn yn effeithio ar fywydau pobl sy'n byw ar hyd yr afonydd?</p> <p>2.1 Pa mor llwyddiannus yw'r agweddau rheoli gwahanol o safbwynt problem llifogydd?</p> <p>2.2 A ddylem newid ein hagwedd at reoli afon a gorlifdir yn y dyfodol?</p>	<p>1.1 <i>Eglurhad o brosesau afon sy'n gysylltiedig ag erydiad, cludiant a dyddodiad.</i></p> <p>1.2 <i>Gwaith maes a braslunio, dehongli ffotograffig, gwaith map Ordnans. Disgrifiad ac eglurhad o bwysigrwydd cymharol erydiad a dyddodiad wrth ffurfio rhaeadrau a cheunentydd; ystumiau afon ac ystumllynnoedd; gorlifdiroedd a llifgloddiau.</i></p> <p>1.3 <i>Astudiaethau achos o ddatblygiad twristiaeth wrth raeadrau mawr a digwyddiad llifogydd o bwys.</i></p> <p>2.1 <i>Cymharu peirianeg caled a meddal. Ymchwilio i effeithiau ffisegol a chymdeithasol cynllun rheoli afon o bwys.</i></p> <p>2.2 <i>Ymarfer penderfynu ar sut i reoli llifogydd datblygiad Porth Tafwys gan gymryd i ystyriaeth ganlyniadau posibl newid hinsawdd.</i></p>

Cwestiynau allweddol	Cwestiynau Ymchwilio	Enghreifftiad
<p>Thema 2 Newid Hinsawdd</p> <p>1. Beth yw achosion newid hinsawdd a pha dystiolaeth sydd ar gael?</p> <p>2. Beth yw'r gwahanol fathau o ddyfodol?</p>	<p>1.1 Beth yw'r effaith tŷ gwyr a sut y mae gweithgareddau pobl wedi effeithio ar y broses hon?</p> <p>1.2 Pa mor argyhoeddiadol yw ystod y dystiolaeth dros newid hinsawdd?</p> <p>2.1 Beth yw effeithiau posibl newid hinsawdd? Rhaid cynnwys sôn am wledydd ar lefelau datblygiad gwahanol.</p> <p>2.2 Sut y gellir defnyddio technoleg a newid ffyrdd o fyw pobl er mwyn lleihau effaith newid hinsawdd?</p>	<p>1.1 <i>Rôl diwydiant, cludiant, ffermio a datgoedwigo yn creu nwyon tŷ gwyr.</i></p> <p>1.2 <i>Ystyriwch ddilysrwydd ystod o dystiolaeth gan gynnwys: tystiolaeth graidd am rew/iâ; allyriannau CO2; digwyddiadau tywydd eithriadol; rhew/iâ yn dadmer/dadlaith; newidiadau i ecosystemau neu fywyd gwylt yn mudo.</i></p> <p>2.1 <i>Effeithiau tymor byr megis nifer cynyddol o stormydd, sychder a llifogydd, cyfleoedd busnes newidiol gan gynnwys amaethyddiaeth. Effeithiau tymor hir megis codiad yn lefelau môr, patrymau newidiol afiechydon a gludir gan bryfed, a ffoaduriaid amgylcheddol yn mudo. Dylai ymgeiswyr bwysu a mesur yr effeithiau cadarnhaol yn erbyn y rhai negyddol.</i></p> <p>2.2 <i>Arbed egni yn y cartref, cludiant cyhoeddus effeithiol, ffrweisi solar, Kyoto, masnachu carbon, hedfan cyfyngedig.</i></p>
<p>Thema 3 Byw mewn Cylchfa Weithredol</p> <p>1. Pam y mae ymylon platiau yn beryglus?</p> <p>2. Sut y mae modd lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â chylchfâu folcanig a daeargrynfeydd?</p>	<p>1.1 Beth yw ymylon platiau a sut y mae symudiad platiau yn cynhyrchu amrywiaeth o dirffurfiau?</p> <p>1.2 Beth yw'r peryglon cynradd ac eilaidd sy'n gysylltiedig â chylchfâu llosgfynyddoedd a daeargrynfeydd?</p> <p>1.3 Pam y mae pobl yn parhau i fyw mewn cylchfâu peryglus?</p> <p>2.1 Sut y mae llosgfynyddoedd yn cael eu monitro a beth y mae hyn yn ei ddweud wrthym am eu cyflwr?</p> <p>2.2 Sut y gellid lleihau effeithiau echdoriadau folcanig a daeargrynfeydd? Rhaid cynnwys sôn am wledydd ar lefelau datblygiad gwahanol.</p>	<p>1.1 <i>Tirffurfiau yn gysylltiedig ag ymylon platiau adeiladol a distrywiol megis llosgfynyddoedd, ffosydd cefnforol, dyffrynnoedd hollt.</i></p> <p>1.2 <i>Astudiaeth achos o ddigwyddiad tectonig o bwys e.e. daeargrynfeydd: Tsunami Dydd San Steffan (2004), Pakistan/Kashmir (2005); echdoriadau folcanig: Etna (Sicilia), Grimsvotn (Gwlad yr Iâ).</i></p> <p>1.3 <i>Astudiaeth o Wlad yr Iâ neu Etna: twristiaeth, pŵer geothermol, ymelwa mwynol, priddoedd hynod o ffrwythlon.</i></p> <p>2.1 <i>Y defnydd o dechnoleg i archwilio gweithgaredd folcanig megis seismofesyryddion, mesuryddion ar ogwydd a darlleniadau nwy e.e. Bryniau Soufriere, Montserrat.</i></p> <p>2.2 <i>Dros dymor byrrach – pobl yn cael eu symud, sianelu llifau lafa, bomio o'r awyr. Dros dymor hir – mapio peryglon, technoleg adeiladau newydd, gwell cynllunio argyfwng, e.e. Japan a California.</i></p>

**UNED 1 – Y Craidd
B – Y Byd Global**

Cwestiynau allweddol	Cwestiynau Ymholi	Enghreifftiad
<p>Thema 4 Poblogaethau Newidiol</p> <p>1. Ble mae pobl yn byw?</p> <p>2. Beth fydd yn digwydd i boblogaeth y byd?</p>	<p>1.1 Ble mae pobl yn byw yn y byd a pham y maent yn byw yno?</p> <p>1.2 Beth yw'r ffactorau gwthio/tynnu sy'n achosi mudo gwledig-trefol a mudo trefol-gwledig? Rhaid cynnwys sôn am wledydd ar lefelau datblygiad gwahanol.</p> <p>2.1 Beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfraddau genedigaethau a marwolaethau?</p> <p>2.2 Sut y mae gwahaniaethau mewn cyfraddau genedigaethau a marwolaethau yn effeithio ar niferoedd a strwythurau poblogaeth yn Ne Asia, Affrica is-Sahara a Gorllewin Ewrop?</p> <p>2.3 Sut y gall y gwahaniaethau hyn newid yn y dyfodol?</p>	<p>1.1 <i>Archwiliwch ffactorau sy'n dylanwadu ar ddsbarthiad poblogaeth byd megis hinsawdd, tirwedd, priddoedd a mwynau. Archwiliwch batrymau byd-eang poblogaeth drefol er mwyn darganfod pa gyfandiroedd yw'r rhai mwyaf trefol a pham y mae'r boblogaeth drefol mewn rhai rhanbarthau mor fawr.</i></p> <p>1.2 <i>Anghyfartaleddau cyfoeth a chyfleoedd mewn Gwledydd LIEDd. Astudiaeth achos o ddinas mewn GLIEDd. Gwell ansawdd bywyd canfyddedig mewn ardaloedd gwledig Gwledydd MEDd. Astudiaeth achos o GMEDd i ddarlunio hyn.</i></p> <p>2.1 <i>Nodi ac egluro sut y mae gwahanol ffactorau yn dylanwadu ar gyfraddau genedigaethau a marwolaethau.</i></p> <p>2.2 <i>Deall sut y mae pyramidiau poblogaeth yn adlewyrchu strwythur poblogaeth mewn gwahanol rannau o'r byd.</i></p> <p>2.3 <i>Effaith HIV yn arbennig yn Affrica is-Sahara, mynediad rhwyddach i gynllunio teulu, gwell addysg a chyfoeth ar gynnydd yn Ne Asia, polisïau o blaid genedigaethau yn yr Almaen neu'r Eidal, effeithiau mudo ar raddfa fawr.</i></p>

Cwestiynau Allweddol	Cwestiynau Ymchwilio	Enghreifftiad
<p>Thema 5 Globaleiddio</p> <p>1. Beth yw globaleiddio?</p> <p>2. Beth yw effeithiau globaleiddio ar wledydd sydd ar wahanol lefelau datblygiad?</p>	<p>1.1 Sut y mae newidiadau mewn busnes a thechnoleg wedi caniatáu cynnydd mewn cyd-ddibyniaeth rhwng gwledydd?</p> <p>1.2 Beth yw manteision globaleiddio a pham y mae rhai yn ei ystyried yn fgythyriad?</p> <p>2.1 Beth fu effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangu'r UE?</p> <p>2.2 Sut y mae gwledydd newydd eu diwydianeiddio megis India a China wedi elwa o globaleiddio?</p> <p>2.3 Sut y mae patrymau masnach wedi atal cynnydd economaidd yn y gwledydd lleiaf datblygedig ymysg y gwledydd sydd wedi datblygu leiaf?</p>	<p>1.1 Ystyriwch y rôl y mae CTW (TNCs) a thechnoleg yn eu chwarae wrth greu cyd-ddibyniaeth agosach: technoleg, yn cynnwys y rhyngwrwyd, twf teithio awyr; cynnydd mewn cyfryngau byd-eang a rhannu diwylliant. Defnyddio Ewrostat i gasglu data eilaidd ar y twf yn y defnydd o'r rhyngwrwyd a ffonau symudol.</p> <p>1.2 Ystyriwch agweddau gwrthwynebus ar faterion megis: tra-arglwyddiaeth cyfryngau a diwylliant UDA; diogelwch byd-eang; colli hunaniaeth genedlaethol. Cymharwch effeithiau cadarnhaol a negyddol CTW (TNCs).</p> <p>2.1 Mapiwch lifau mudo o Wlad Pwyl a gwledydd eraill y Cytundeb i orllewin Ewrop.</p> <p>2.3 Polisiau diffynnaeth yn cynnwys ardollau, cymorthdaliadau a chwotâu. Astudiaeth achos o UE yn dympio tomatos a chywion ieir yng Ngorllewin Affrica.</p>
<p>Thema 6 Datblygiad</p> <p>1. Sut y mae patrymau datblygiad byd-eang yn cael eu hadnabod?</p> <p>2. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni cyrchnodau Datblygiad y Mileniwm?</p>	<p>1.1 Sut y mae datblygiad economaidd a chymdeithasol yn cael ei fesur a beth yw'r patrymau byd-eang?</p> <p>1.2 Beth yw patrymau rhanbarthol datblygiad economaidd a/neu gymdeithasol mewn un wlad?</p> <p>2.1 Beth yw Cyrchnodau Datblygiad y Mileniwm (MDGs) a sut y mae llywodraethau a chyrrff anlywodraethol yn mynd i'r afael â hwy?</p> <p>2.2 Pa gynnydd sy'n cael ei wneud gan wledydd De Asia tuag at Gyrchnodau DM (MDGs)?</p> <p>2.3 Pa gynnydd sy'n cael ei wneud gan wledydd Affrica is-Sahara tuag at Gyrchnodau DM (MDGs)?</p>	<p>1.1 Cymharwch effeithiolrwydd pedwar mesur gwahanol megis CCC, \$ y dydd, disgwylad oes a Mynegrif Datblygiad Dynol (MDD) (HDI). Defnyddiwch http://hdr.undp.org/en/statistics/ i fapio MDD.</p> <p>1.2 Defnyddiwch http://www.statssa.gov.za/census01/html/default.asp i ymchwilio i anghydraddoldebau rhanbarthol yn Ne Affrica.</p> <p>2.1 Defnyddiwch http://www.un.org/millenniumgoals/ i ganolbwyntio ar Cyrchnodau DM (MDGs) o safbwynt lleihau tlodi, gwella'r gallu i dderbyn dŵr, cyflawni addysg gynradd gyffredinol, lleihau anghydraddoldeb rhyw.</p> <p>2.2 Defnyddiwch graffeg byw ar http://hdr.undp.org/en/statistics/data/ i fesur cynnydd cymharol India neu Bangladesh o'i gymharu â Ghana neu Kenya.</p> <p>2.3 Defnyddiwch y graffeg byw ar http://hdr.undp.org/en/statistics/ i fesur cynnydd cymharol India neu Bangladesh o'i gymharu â Ghana neu Kenya.</p>

**Uned 2 – Y Dewisiadau
Dewiswch un ffisegol, un dynol ac un arall**

**Uned 2
A – Dewisiadau Ffisegol**

Cwestiynau Allweddol	Cwestiynau Ymholi	Enghreifftiad
Thema 7 Ein Morlin Newidiol		
1. Beth yw prosesau arfordirol a pha dirffurfiau y maent yn eu creu?	1.1 Pa brosesau sy'n cael eu cysylltu â'r môr? 1.2 Pa dirffurfiau sy'n ganlyniad y prosesau hyn? Rhaid cynnwys sôn am fwâu a thafodau. 1.3 Sut y mae'r tirffurfiau a'r prosesau hyn yn effeithio ar fywydau pobl sy'n byw ar hyd yr arfordir?	1.1 <i>Eglurhad o brosesau morol sy'n gysylltiedig ag erydiad, cludiant a dyddodiad.</i> 1.2 <i>Gwaith maes, braslunio, dehongli ffotograffig, gwaith map Ordnans, dadansoddi DVD i ddangos effeithiau prosesau ar dirffurfiau megis pentiroedd, baeau, clogwyni, traethau, tafodau.</i> 1.3 <i>Astudiaethau achos o ddatblygiadau twristaidd/pysgota.</i>
2. Sut y mae arfordiroedd yn cael eu rheoli?	2.1 Beth yw manteision ac anfanteision strategaethau peirianeg galed a meddal sy'n cael eu defnyddio i reoli ein harfordiroedd?	2.1 <i>Ymchwil rhyngwrwyd/papur newydd. Enghreifftiau o beirianeg galed – waliau môr, caergewyll (gabions), rip rap – yn ddrud ond gwarantiedig? Peirianeg feddal e.e. enciliad dan reolaeth yn Essex. Barnau gwrthgyferbyniol ar golli tir amaethyddol gwerth isaf sy'n digwydd pan adewir i forlinau encilio er mwyn creu byfferau o flatiau llaid.</i>
3. Sut y dylid rheoli amgylcheddau arfordirol yn y dyfodol?	3.1 Pam y mae lefelau'r môr yn newid a sut bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bobl? 3.2 Beth yw'r ffordd fwyaf gynaliadwy i reoli ein morlin serch bod lefelau môr yn codi?	3. <i>Astudiaethau cymharol o godiad yn lefel môr yn Ne Ddn Lloegr a Bangladesh. Ymarferiad penderfynu: Pa bryd y gallai fod yn addas i 'encilio'r llinell' neu 'wneud dim' yn hytrach na ' chadw'r llinell' pan yn rheoli arfordiroedd?</i>

Cwestiynau Allweddol	Cwestiynau Ymholi	Enghreifftiol
Thema 8 Tywydd a Hinsawdd		
1. Beth yw'r gwahaniaethau mewn hinsawdd o fewn y DU?	1.1 Pa ffactorau sy'n creu'r amrywiaethau mewn tywydd a hinsawdd a geir o fewn ac o gwmpas Ynysoedd Prydain?	1. <i>Disgrifiad ac eglurhad o ddylanwad uchder, agwedd, aergyrrf a gwasgedd aer yn creu patrymau tymheredd a dyodiad. Cyferbynnwch batrymau hinsawdd a thywydd rhwng Uwchdir Cymru a Dwyrain Lloegr.</i>
2. Sut y mae'r tywydd yn creu peryglon i bobl?	2.1 Beth yw'r peryglon tywydd hyn sy'n gysylltiedig â systemau gwasgedd aer uchel ac isel dros Ynysoedd Prydain ac â stormydd trofannol? 2.2 Sut y mae peryglon tywydd yn effeithio ar bobl, ar yr economi a'r amgylchedd?	2. <i>Disgrifiad o effaith tymhestloedd, llifogydd, sychderau yn y DU ac effaith stormydd trofannol mewn un GLIEDd ac un GMEDd. Ymchwil rhyngryd a DVD e.e. Katrina. Cymhariaeth o stormydd rhwng UDA a Jamaica neu Japan a Bangladesh.</i>
3. Allwn ni reoli peryglon tywydd?	3.1 Sut y mae modd defnyddio technoleg (i) i ragweld tywydd eithafol a (ii) i leihau effaith ei effeithiau?	3. <i>Gwerthuswch gan ddefnyddio enghreifftiau o strategaethau Gwledydd MEDd a Gwledydd LIEDd ar gyfer rheoli effeithiau llifogydd a stormydd yn y DU, stormydd trofannol h.y. rhagolygon tywydd yn cynnwys technoleg loeren, adeiladu cysgodfannau rhag stormydd, a defnyddio byfferau naturiol (megis gwernydd mangrof neu fflatiau mwd). Sylwch ar y gwahaniaeth o ran effeithiolrwydd technoleg rhwng Gwledydd MEDd a Gwledydd LIEDd.</i>
Thema 9 Pethau Byw		
1. Beth yw biomau a sut y maent yn gwahaniaethu?	1.1 Sut y mae'r amgylchedd ffisegol yn rhyngweithio â phethau byw ar gyfer cynhyrchu ecosystemau gwahanol ar raddfa fawr? 1.2 Sut y mae hinsawdd yn effeithio ar ddsbarthiad byd-eang ecosystemau ar raddfa fawr?	1.1 <i>Nodi'r cysylltau rhwng rhannau byw ac anfyw ecosystem. Gwerthfawrogi bod ecosystemau yn bodoli ar wahanol raddfeydd.</i> 1.2 <i>Ymchwilio i ddylanwad tymheredd, glawiad (swm yn ogystal ag amlder) ar ecosystemau graddfa fawr megis twndra, coedwig law fonsŵn a biomau seroffytig.</i>
2. Sut y mae ecosystemau yn cael eu rheoli?	2.1 Ym mha ffyrdd y mae pobl yn defnyddio ecosystemau? 2.2 Sut y mae modd rheoli ecosystemau yn gynaliadwy?	2.1 <i>Adnabod a dadansoddi effaith ddynol ar un ecosystem a leolir er mwyn arddangos y dulliau amrywiol y mae'n cael ei defnyddio megis i gynhyrchu boncyffion, amaethyddiaeth a physgota.</i> 2.2 <i>Gwerthuso strategaethau fel ecodwristiaeth, dethol boncyffion, parciau cenedlaethol, llwybrau beicio a chwotas pysgod.</i>
3. Beth yw'r canlyniadau tebygol os yw ecosystemau yn dal i gael eu difrodi?	3.1 Pa dystiolaeth sydd fod ecosystemau yn cael eu defnyddio mewn modd anghynaliadwy? 3.2 Beth yw'r canlyniadau lleol a byd-eang o ran defnyddio ecosystem anghynaliadwy ar bobl ac ar yr amgylchedd?	3. <i>Amlinellid o brif ddarganfyddiadau Asesiad Ecosystem y Mileniwm www.millenniumassessment.org/ gyda gwerthusiad o effeithiau negyddol diraddiad ecosystem ar weithgaredd economaidd, ar ansawdd dŵr ac o bosibl difodiant.</i>

**Uned 2
B – Dewisiadau Dynol**

Cwestiynau Allweddol	Cwestiynau Ymchwilio	Enghreiffiad
Thema 10 Twristiaeth		
1. Pam y mae natur twristiaeth yn amrywio o le i le?	1.1 Beth yw'r ffactorau, ffisegol a dynol, sy'n effeithio ar natur twristiaeth? 1.2 Ym mha ffyrdd a pham y mae twristiaeth yn newid?	1.1 <i>Tirwedd, hinsawdd, fflora a ffawna arbennig, argaeledd gwestai, safleoedd gwerysyla, adloniant, parciau thema, hygyrchedd.</i> 1.2 <i>Sut y mae twristiaeth yn newid: math y gwyliau e.e. gweithgareddau, mordaith, hunanarlwyo, teithiau hir, dirywiad mewn gwyliau ar draethau, mwy o gyrchfannau yn gofyn am deithio pell, mwy o wyliau byrion. Rhesymau dros dwf megis: cynnydd mewn oriau hamdden, mwy o gyfoeth, teithiau awyr rhatach, archebu ar y rhyngwrwyd, cynnydd mewn hysbysebu.</i>
2. Beth yw effeithiau twristiaeth?	2.1 Beth yw effeithiau datblygiad twristiaeth ar: <ul style="list-style-type: none"> • pobl a'r economi? • yr amgylchedd? Rhaid cynnwys sôn am ranbarthau ar lefelau datblygiad gwahanol?	2.1 <i>Dadansoddiad cost-budd effaith twristiaeth ar un GMEDd ac un GLIEDd. Adeiladau newydd, ffyrdd, effeithiau ar amaethyddiaeth leol, cynnydd mewn cyflogaeth, mwy o alw am ddŵr, colli diwylliant lleol, tagfeydd trafnidiaeth (llygredd), cynnydd mewn ôl-troed carbon, problem ail gartrefi.</i>
3. Sut y mae modd datblygu twristiaeth mewn modd cynaliadwy?	3.1 Sut y mae modd datblygu twristiaeth mewn modd cynaliadwy?	3. <i>Y tymor gwyliau yn ymestyn, ecodwristiaeth mewn coedwig law, clirio'r difrod a fu yn y gorffennol, Parciau cenedlaethol DU neu safleoedd treftadaeth ddiwydiannol.</i>
Thema 11 Newidiadau mewn Adwerthu a Bywyd Trefol		
1. Ym mha ffyrdd gwahanol y mae canol dinasoedd Ewropeaidd yn cael eu hadnewyddu?	1.1 Ym mha ffyrdd y mae canol dinasoedd Ewropeaidd yn newid? 1.2 Beth yw effeithiau newidiadau canol dinas ar eu daearyddiaeth yn ystod y dydd ac yn ystod y nos?	1.1 <i>Amlinelliad byr o wahanol fathau o newidiadau yng nghanol dinas megis datblygiad ar lan y dŵr neu foneddigeiddio.</i> 1.2 <i>Archwilio manteision ac anfanteision cymdeithasol ac economaidd adfywio canol dinasoedd a/neu ardaloedd y ddinas fewnol. Gall hyn gynnwys patrymau boneddigeiddio neu gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol / troseddu gyda'r nos mewn canol dinas lle bu diboblogi. Gallai Caerdydd, Manceinion, Bilbao, Barcelona (Gemau Olympaidd a datblygiad glannau'r dŵr) fod yn enghreifftiau.</i>
2. Beth yw patrymau adwerthu ar hyn o bryd mewn dinasoedd Ewropeaidd?	2.1 Ymhle y mae adwerthu yn digwydd yn y ddinas? 2.2 Sut y mae adwerthu yn newid a pha effeithiau y mae hyn yn ei gael ar bobl ac ar yr amgylchedd?	2.1 <i>Gwaith maes trefol, y defnydd o'r rhyngwrwyd a/neu SGD (GIS) ar gyfer mapio defnydd tir adwerthu mewn CBD, canolfannau siopa lleol a pharciau adwerthu ar gyron trefol.</i> 2.2 <i>Dadansoddiad holiadur: effaith siopa ar y rhyngwrwyd ar y stryd fawr (e.e. siopau llyfrau a CD). Effaith cynlluniau i gerddwyr yn unig.</i>
3. Sut y mae newidiadau yn newisiadau defnyddwyr Ewropeaidd yn cael effaith fyd-eang?	3.1 Beth yw effeithiau cynnydd yn newisiadau'r defnyddwyr ar bobl mewn gwledydd datblygol, ac ar yr amgylchedd byd-eang?	3. <i>Ymchwilio i dueddiadau mewn prynu nwyddau organig, masnach deg a moesegol e.e. effaith coco Masnach Deg yn Ghana. Ymchwilio i agweddau defnyddwyr at filltiroedd bwyd.</i>

Cwestiynau Allweddol	Cwestiynau Ymholi	Enghreifftiad
<p>Thema 12 Newid Economaidd a Chymru</p> <p>1. Beth yw'r mathau o waith sydd i'w cael yng Nghymru ar hyn o bryd?</p> <p>2. Beth yw dyfodol cyflogaeth yng Nghymru?</p> <p>3. Pa newidiadau sy'n debygol o ddigwydd yng nghyflenwad egni a'r galw amdano yng Nghymru?</p>	<p>1.1 Sut yr ydym yn dosbarthu gwaith a chyflogaeth?</p> <p>1.2 A welir patrwm arwynebedd i'r dosbarthiad hwn o waith?</p> <p>2.1 Sut a pham y mae'r patrymau gwaith hyn yn newid?</p> <p>2.2 Pa effeithiau y gallai'r newidiadau hyn eu cael?</p> <p>3.1 Sut y mae Cymru yn cyflenwi ei hanghenion egni presennol?</p> <p>3.2 Pa newidiadau yn y dyfodol allai ddigwydd mewn ffynonellau egni ac yn y galw amdano?</p> <p>3.3 Pa wrthdaro mewn barn y mae'r newidiadau hyn mewn cyflenwad yn debygol o arwain ato?</p>	<p>1.1 <i>Dosbarthiad yn defnyddio sectorau cynradd, eilaidd, trydyddol, cyhoeddus/preifat, seiliedig ar wybodaeth ayb. Dadansoddiad o ddata cyfrifiad gan ddefnyddio www.statistics.gov.uk ac adroddiadau newyddion o'r rhyngwlad a'r cyfryngau.</i></p> <p>1.2 <i>Cynradd (ffermio a choedwigo) yn arwyddocaol yn yr uwchdiroedd yn unig. Eilaidd - yn arwyddocaol ar hyd a gerllaw'r M4 ac yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Trydyddol – yn arwyddocaol ar hyd yr arfordir (twristiaeth) ac yn y trefi a'r dinasoedd.</i></p> <p>2.1 <i>Ystyried newidiadau tebygol yn y diwydiannau cynradd a thrydyddol megis parhau i arallgyfeirio, cnydau organig GM. Effeithiau polisiau'r U.E. a gweithrediadau LICC.</i></p> <p>2.2 <i>Ystyried effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd megis dirywiad posibl yn y boblogaeth mewn ardaloedd gwledig anghysbell neu gynnydd ym mhoblogaeth y rhanbarthau arfordirol.</i></p> <p>3.1 <i>Yn bennaf drwy ddefnyddio tanwydd ffosil. Mewnforio glo a nwy. Trydan o'r grid cenedlaethol yn bennaf o bwerdai glo, olew a nwy a rhywfaint o danwydd niwclear. Symiau cyfyngedig o egni o adnoddau adnewyddadwy.</i></p> <p>3.2 <i>Cynnydd mewn pŵer gwynt, cynllun llanw Bared Hafren yn bosiblwydd; diddordeb yn ailgynnu mewn ehangu niwclear; biodanwydd ym Mhort Talbot, parhau i ddefnyddio glo, mentrau olew, newidiadau technolegol.</i></p> <p>3.3 <i>Dadl ynglŷn ag effaith ffermydd gwynt ar fywyd gwyllt a harddwch golygfaol, effaith Bared Hafren ar yr amgylchedd morydol; peryglon niwclear a gwaredu gwastraff, ayb.</i></p>

3

ASESU

3.1 Cynllun Asesu

Mae'r TGAU Daearyddiaeth (A) yn cael ei asesu mewn haenau, h.y. targedir cydrannau/unedau a asesir yn allanol ar ystod graddau o A*-D (Haen Uwch) a C-G (Haen Sylfaenol), tra bod asesiadau dan reolaeth yn darparu ar gyfer yr ystod gallu lawn. Bydd y cwestiynau a'r tasgau yn cael eu llunio i alluogi ymgeiswyr i ddangos yr hyn y maent yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud.

Haen	Graddau sydd ar gael
Uwch	A*, A, B, C, D
Sylfaenol	C, D, E, F, G

Manyleb linol yw hon; rhaid cwblhau pob asesiad ar ddiwedd y cwrs.

Bydd y cynllun asesu'n cynnwys:

75% o asesiad allanol drwy ddau bapur ysgrifenedig, a chydran o 25% a asesir dan reolaeth yn fewnol.

- Bydd y papurau'n cael eu rhannu yn ôl cynnwys.

Mae Uned 1 yn asesu'r themâu Craidd yn y Fanyleb.
Mae Uned 2 yn asesu'r themâu Dewisol yn y Fanyleb.

- Mae dwy haen i bob papur.

Uned 1 (40%)

Haen Uwch yn targedu graddau A* - D. 1 awr 45 munud

Haen Sylfaenol yn targedu graddau C - G. 1 awr 45 munud

Uned 2 (35%)

Haen Uwch yn targedu graddau A* - D. 1 awr 15 munud

Haen Sylfaenol yn targedu graddau C - G. 1 awr 15 munud

- **Asesiad dan Reolaeth**

Mae manyleb TGAU CBAC mewn Daearyddiaeth A yn cwrdd â'r holl reoliadau ar gyfer asesu dan reolaeth fel y mynegwyd gan yr awdurdodau rheoleiddio.

Mae'r dasg asesu dan reolaeth yn werth 25% o'r cyfanswm marciau sydd ar gael ar gyfer y fanyleb.

Mae'r asesiad dan reolaeth yn gydran orfodol o TGAU Daearyddiaeth. Mae'n cyflenwi'r arholiad allanol drwy gynnig dull pendant o asesu gallu'r ymgeiswyr i:

- adnabod, asesu a gwerthuso cwestiynau a materion daearyddol perthnasol;
- sefydlu dilyniannau ymchwilio priodol gan ymgorffori sgiliau daearyddol, yn cynnwys sgiliau ymholi;
- dod o hyd i wybodaeth a'i dehongli allan o ystod o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys arsylwi yn y maes, mapiau (yn cynnwys mapiau Ordnans o wahanol raddfeydd), lluniau, ffotograffau (delweddaeth daear, awyr a lloeren), diagramau a thablau;
- disgrifio, dadansoddi a dehongli tystiolaeth, gwneud penderfyniadau, llunio a chyfiawnhau casgliadau a chyfathrebu darganfyddiadau mewn ffyrdd priodol ar gyfer y dasg a'r gynulleidfa;
- gwerthuso dulliau o gasglu, cyflwyno a dadansoddi tystiolaeth, a gwerth a chyfyngiadau tystiolaeth a chasgliadau.

Mae asesiad dan reolaeth yn cynnig cyfle i ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth a'u cymhwysiad o egwyddorion daearyddol o fewn cyd-destun profiad dysgu cyfoethog. Un o ofynion y meini prawf rheoledig yw bod **gwaith maes yn rhan annatod o asesiad dan reolaeth**. Mae'n rhaid i'r ymchwiliad i Dasg 1 gynnwys elfen o waith maes yn ymwneud â chasglu data cynradd o fewn y cyfnod ymchwil. Gall gwaith maes, lle bo'n briodol, hefyd ffurfio rhan o'r ymchwil ar gyfer Tasg 2.

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau dwy dasg ar wahân:

1. Ymholiad gwaith maes sy'n werth 10%. Mae hon yn dasg wedi ei chyfyngu o ran ffocws ac yn seiliedig ar waith maes a data eilaidd ategol ac i'w chyflwyno fel adroddiad byr gyda data darluniadol.
2. Ymarfer ymchwil datrys problemau/gwneud penderfyniadau sy'n werth 15%. Bydd y dasg hon yn seiliedig ar addysgu yn yr ystafell ddosbarth a gwaith ymchwil unigol a allai gynnwys gwaith maes. Mae'n gofyn i ymgeiswyr archwilio cwestiwn perthnasol o un o'r themâu craidd neu ddewisol a defnyddio'r data i gyfleu syniadau a gwneud a chyfiawnhau penderfyniadau. Gall yr ymgeisydd ddewis y dull o gyflwyno. Er enghraifft, gall fod yn erthygl bapur newydd, cyflwyniad PowerPoint, Stori Luniau, traethawd neu gyflwyniad llafar.

3.2 Amcanion Asesu

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu i:

Amcanion Asesu		% pwysiad
AA1	Galw i gof, dethol, a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o leoedd, amgylcheddau a chysyniadau	35%
AA2	Cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn cyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd	30%
AA3	Dethol a defnyddio amrywiaeth o sgiliau, technegau a thechnolegau ar gyfer ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso cwestiynau a materion	35%

Mae pwysiad yr amcanion asesu ar draws cydrannau'r arholiad fel a ganlyn:

		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1 (S/U)		15%	10%	15%	40%
Uned 2 (S/U)		15%	10%	10%	35%
Uned 3 Asesiad dan Reolaeth	Ymholiad Gwaith Maes	2%	3%	5%	25%
	YGP	3%	7%	5%	
Cyfanswm y Pwysiad		35%	30%	35%	100%

3.3 Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig

Ar gyfer cydrannau sy'n cynnwys ysgrifennu estynedig (h.y. ymhob un o'r tair cydran) bydd yr ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig o fewn asesiad cyffredinol y gydran honno.

Mae'r cynlluniau marcio ar gyfer y cydrannau hyn yn cynnwys y meini prawf penodol canlynol ar gyfer asesu'r cyfathrebu ysgrifenedig:

- darllenadwyaeth testun, cywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg; eglurder ystyr;
- dewis o ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i bwrpas ac i gymhlethdod y cynnwys;
- trefnu gwybodaeth yn glir ac yn gydlynol; defnyddio geirfa arbenigol lle y bo'n briodol.

Ychwanegwyd marciau crai ychwanegol at Uned 2 er mwyn gwobrwo gallu'r ymgeiswyr i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir yn unol ag Atodiad A y ddogfen *Rheoliadau ar gyfer Asesu Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig*. Nid yw'r marciau ychwanegol hyn yn effeithio ar bwysiad yr amcanion asesu fel yr amlinellwyd hwy yn Adran 3.2.

4

DYFARNU, ADRODD AC AILSEFYLL

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A* i G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd cyrhaeddiad disgyblion na fyddant yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf bosibl i gael gradd yn cael ei gofnodi fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Manyleb linol yw hon y mae'n rhaid cymryd pob uned ynddi ar ddiwedd y cwrs. Rhaid gwneud cydrannau allanol eto os yw ymgeiswyr yn dymuno ailsefyll. Gellir ailsefyll y gydran asesiad dan reolaeth hefyd yn ôl y canllawiau a roddir yn 'Gweinyddu'r Asesiad dan Reolaeth'. Fel arall, gellir trosglwyddo'r marc GMU am y gydran hon i'w agregu gyda'r cydrannau allanol pan fyddant yn cael eu hailsefyll.

Bydd canlyniadau uned unigol ar gyfer dyfarniad cyffredinol y pwnc yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i holl gymwysterau TGAU (gweler y tabl isod). Bydd yr hyn sy'n gywerth â'r radd yn cael ei nodi fel llythyren fach (a*) i (g) ar slipiau canlyniadau ond ddim ar dystysgrif.

	GMU UCHAF	A*	A	B	C	D	E	F	G
UNED 1 (pwysiad 40%)	80	72	64	56	48	40	32	24	16
UNED 2 (pwysiad 35%)	70	63	56	49	42	35	28	21	14
UNED 3 (pwysiad 25%)	50	45	40	35	30	25	20	15	10
Cymhwyste r TGAU	200	180	160	140	120	100	80	60	40

5

GWEINYDDU'R ASESIAID DAN REOLAETH

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gwblhau dwy dasg a ddewiswyd o'r rhai a ddarparwyd gan CBAC a'u gosod mewn cyd-destun sy'n gweddu orau i amgylchiadau penodol eu canolfan gan gynnwys lleoliad a chaffaeledd a mynediad i adnoddau.

Bydd yr holl ddogfennaeth (CAA 1, 2, 3) sy'n gysylltiedig â marcio'r asesiad dan reolaeth ar gael ar wefan CBAC a bydd wedi'i chynnwys yn y Canllawiau i Athrawon. Rhoddir hefyd y dyddiad cyflwyno ar gyfer y sampl safoni.

Dylid marcio pob tasg ar wahân ond gyda'i gilydd yn rhoi cyfanswm allan o 100 (50 GMU).

Bydd pob tasg yn cael ei hasesu gan athro ac yn agored i safoni allanol.

Mae'r asesiad dan reolaeth yn profi'r holl amcanion asesu ar gyfer TGAU Daearyddiaeth (A) o fewn y pwysiau a fynegwyd gan yr awdurdodau rheoleiddio.

AA1	Galw i gof, dethol, a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o leoedd, amgylcheddau a chysyniadau	Tasg 1 - 2% Tasg 2 - 3% 5%
AA2	Cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn cyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd	Tasg 1 - 3% Tasg 2 - 7% 10%
AA3	Dethol a defnyddio amrywiaeth o sgiliau, technegau a thechnolegau ar gyfer ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso cwestiynau a materion	Task 1 - 5% Task 2 - 5% 10%

LEFELAU RHEOLI

Mae'r meini prawf a'r derminoleg ar gyfer asesu dan reolaeth fel y mynegwyd gan yr awdurdodau rheoleiddio, yn gyffredin ar draws yr **holl** gyrrff dyfarnu a'r **holl** fanylebau newydd TGAU mewn Daearyddiaeth. Mae'r asesiad dan reolaeth mewn TGAU Daearyddiaeth (A) yn cael ei rannu'n dri cham:

- gosod tasg
- ymgymryd â thasg
- marcio tasg

Ar gyfer pob cam, mae'r awdurdodau rheoleiddio wedi pennu lefel benodol o reolaeth er mwyn sicrhau bod yr amodau sy'n sail i'r modd y mae'r tasgau'n cael eu gosod, eu gweithredu a'u marcio, yn rhai grymus a chyson rhwng canolfannau a Chyrrff Dyfarnu. Bydd y rheolyddion hyn yn sicrhau bod yr asesiad yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn cael ei ddilysu gyda gradd uchel o hyder.

GOSOD TASG

Pennir lefel uchel o reolaeth ar gyfer y ddwy dasg.

- O safbwynt y gwaith maes a'r ymholiadau gwneud penderfyniadau, bydd CBAC yn darparu dewis o dasgau generig wedi'u cymeradwyo sy'n debyg i'w gilydd.
- Bydd CBAC yn cyhoeddi rhestr o dasgau wedi'u cymeradwyo yn flynyddol, cyn bob un o'r cylchredau dwy flynedd, ar ei gwefan.
- Bydd canolfannau'n dewis **un** Ymholiad Gwaith Maes ac **un** Ymarferiad Datrys Problemau/Gwneud Penderfyniad o'r amrywiaeth tasgau a ddarperir.
- Bydd y tasgau'n cael eu datblygu i sicrhau bod canolfannau'n gosod pob un mewn cyd-destun fel eu bod yn gweddu orau i amgylchiadau'r ganolfan benodol, er enghraifft, lleoliad, arbenigedd staff a darpariaeth adnoddau.
- **Ni ddylai canolfannau ddefnyddio'r un dasg yn ei chyd-destun mewn blynyddoedd dilynol.**
- Bydd CBAC yn cyhoeddi 'Canllawiau i Athrawon' er mwyn egluro sut i ddatblygu'r gwaith maes a'r ymholiadau datrys problemau/gwneud penderfyniad yn dasgau addas.
- Bydd Ymgynghorydd, a fydd yn cael ei benodi gan CBAC, yn cynnig cefnogaeth, lle y bo angen, ar ddatblygiad y tasgau a ddewiswyd o fewn y paramedrau a nodwyd yn y fanyleb.
- **Anogir canolfannau i ddatblygu'r tasgau ar gyfer asesiad dan reolaeth fel rhan annatod o gyflwyno'r themâu craidd a/neu ddewisol. Ystyrir asesiad dan reolaeth fel canlyniad naturiol i'r broses addysgu a dysgu ac nid o reidrwydd yn ychwanegiad at y cynnwys a gyflwynir.**
- **Dylai canolfannau sylweddoli fod yn rhaid i'r tasgau asesiad dan reolaeth fod yn rhai sy'n bosib i'w trafod o safbwynt yr amser a roddir ac y gellir eu cyflwyno mewn sawl modd gwahanol. (tudalen 29).**

Y Tasgau

- O safbwynt yr asesiad dan reolaeth, mae gofyn i'r ymgeiswyr gwblhau dwy dasg:
 1. Yr ymholiad gwaith maes;
 2. Yr ymarferiad ymchwil datrys problem / penderfynu.

Bydd y canolfannau yn dewis o restr o bynciau generig a ddarperir a datblygu'r ddwy dasg yn y ffordd orau i weddu'r ymgeiswyr o fewn y ganolfan. Bydd y rhestrau a ddarperir yn darparu dewis o bob un o'r themâu ac yn galluogi canolfannau, pe dymument, i ddatblygu'r ddwy dasg yn seiliedig ar yr un thema ond **ar wahanol raddfeydd a lleoliadau.**

YMGYMRYD Â THASG

Ceir dau gyfnod i Ymgymryd â Thasg.

(A) Ymchwil/casglu data

Nodir lefel gyfyngedig o reolaeth ar gyfer y ddwy dasg.

(B) Dadansoddiad a Gwerthusiad

Nodir lefel uchel o reolaeth ar gyfer y ddwy dasg.

(A) Ymchwil/casglu data

Gwneir yr ymchwil o dan reolaeth gyfyngedig.

- *Rheoli dilysrwydd.*

Rhaid i'r gwaith ymchwil/casglu data gael ei oruchwylio gan yr athro a roddir arweiniad o safbwynt ffynonellau ymchwil priodol sy'n gymwys ar gyfer yr ymchwiliad a ddewiswyd.

Rhaid i athrawon gadw log manwl o unrhyw gyngor cyffredinol a roddir i'r holl ymgeiswyr (Ffurflenni CAA2 a CAA3). Dylid dyddio a chofnodi natur unrhyw gyngor ychwanegol, yn llafar neu'n ysgrifenedig, a roddir i ymgeiswyr unigol. Bydd disgwyl i ganolfannau ddilysu pa bryd a pha le y mae ymgeiswyr yn cynnal a chwblhau eu ymchwil o dan oruchwyliaeth.

Weithiau mae angen i'r athro ddarparu rhywfaint o ddeunydd ymchwil i'r holl ymgeiswyr. Mae hyn oherwydd y gall fod yn broblem i ymgeiswyr gael at y fath ddeunyddiau a/neu nad yw sefydliadau yn dymuno cael eu boddi gyda cheisiadau lluosol am yr un wybodaeth. Yn yr achosion hyn rhaid i'r athro gofnodi a chadw enghreifftiau o unrhyw ddarnau o ddeunydd ymchwil a roddir i'r holl ddisgyblion.

- *Rheoli adborth*

Gall athrawon fynegi eu barn ar y gwaith ymchwil y mae'r ymgeiswyr yn ymgymryd ag ef e.e. ar natur ac addasrwydd methodoleg yr ymchwil y mae ymgeisydd wedi ei ddewis i'w fabwysiadu neu addasrwydd yr holiadur ar gyfer ymchwil cynradd.

Dylid dyddio a chofnodi unrhyw gefnogaeth, ar lafar ac yn ysgrifenedig, sy'n cael ei rhoi i ymgeiswyr. Dylai ddangos yn eglur union natur y cyngor. Mewn rhai achosion gall fod o'r maint lleiaf a gwneud dim mwy na llywio'r ymgeiswyr i'r cyfeiriad iawn, ond mewn achosion eraill gellir manylu a'i gadw mewn cof wrth wneud yr asesiad terfynol.

- *Rheoli amser*

Cyfanswm yr amser a roddir i'r elfen hon o asesiad dan reolaeth yw 5 awr ar y mwyaf i bob un o'r ddwy dasg. Mae'r ystod amser wedi ei lunio i ystyried anghenion yr ymgeiswyr hynny sydd angen amser ychwanegol oherwydd, er enghraifft, anawsterau dysgu.

- Rheoli cydweithredu

Gall gwaith yr unigolyn elwa drwy weithio ag eraill e.e. wrth lunio holiadur a chasglu tystiolaeth ond mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu ymateb unigol.

- *Rheoli adnoddau*

Mae gallu'r ymgeiswyr i gael gafael ar adnoddau yn cael ei benderfynu gan y rhai sydd ar gael i'r ganolfan a gallant gynnwys dulliau ymchwil eilaidd megis defnyddio'r rhyngwyd, cylchgronau, llyfrau, deunyddiau o sefydliadau perthnasol a thrwy waith maes cynradd.

(B) Dadansoddi a gwerthuso

Ar y cyfan ceir lefel **uchel** o reolaeth i'r agwedd hon.

- *Rheoli dilysrwydd*

Mae ymgeiswyr yn cwblhau eu gwaith i gyd o dan oruchwyliaeth ffurfiol uniongyrchol ac yn dod â deunyddiau ymchwil fel y nodwyd ar gyfer y tasgau isod. Mae'n rhaid i'r deunydd hwn gael ei gynnwys gyda'r darn terfynol o waith.

Gall ymgeiswyr gwblhau'r gwaith mewn llawysgrifen neu drwy ddefnyddio TGCh.

- *Rheoli adborth*

Yn ystod cwblhau'r asesiad dan reolaeth, caniateir i athrawon gyfathrebu gyda'r ymgeiswyr er mwyn egluro rhai materion, ond nid ydynt i gynnig awgrymiadau nac atebion. Gall athrawon gynnig cymorth o safbwynt materion technegol.

- *Rheoli amser*

Caniateir 5 awr ar y mwyaf i'r ymgeiswyr ar gyfer y cyfnod dadansoddi a gwerthuso (lefel uchel o reolaeth) yr ymholiad gwaith maes.

Caniateir 8 awr ar y mwyaf i'r ymgeiswyr ar gyfer y cyfnod dadansoddi a gwerthuso (lefel uchel o reolaeth) y dasg datrys problemau/gwneud penderfyniad.

Gellir rhoi amser ychwanegol i ymgeiswyr ag anawsterau dysgu fel sy'n cael ei ddiffinio yn 'Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig - Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol'.

- *Rheoli cydweithredu*

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r holl waith yn annibynnol.

- *Rheoli adnoddau*

Mae'r deunydd ymchwil yn cael ei gyfyngu i'r hyn sy'n cael ei amlinellu yn Rheoli Dilysrwydd.

MARCIO TASGAU

Nodir lefel ganolig o reolaeth ar gyfer y ddwy dasg.

- Gellir cyflwyno'r dasg a gwblhawyd mewn sawl ffordd wahanol e.e. PowerPoint, dilyniant fideo/ffoto, llafar, SGD (G/S) ayb neu fel adroddiad ysgrifenedig mwy traddodiadol. Ni ddylai hwn fod yn fwy nag ychydig o dudalennau o ran hyd, neu ryw 6 - 8 sleid gyda nodiadau, yn dibynnu ar yr amser a neilltuwyd. Mae'r athro yn marcio'r gwaith gan ddefnyddio meini prawf y marcio ar dudalennau 34-46 a 39-41.
- Mae'r corff dyfarnu yn safoni'n allanol y marciau drwy ddefnyddio hap-samplu, sy'n gyson â gofynion y *Cod Ymarfer*.
- Bydd dyddiad cyflwyno'r sampl a'r ddogfennaeth (CAA 1, 2, 3) ar gael ar wefan CBAC.

Canllawiau ar gyfer Asesu dan Reolaeth

Tasg 1 – Ymholiad Gwaith Maes

- Mae athrawon yn trafod yr amcanion asesu a'r meini prawf asesu gyda'r ymgeiswyr. Bydd CBAC yn penodi Ymgynghorydd i ddarparu cefnogaeth, lle y bo angen, ar sut i lunio a gweithredu tasg (yn cynnwys y dewis o leoliad maes, marciau ar gyfer cael data cynradd, data eilaidd i'w defnyddio ac amser cymesur i'w dreulio ar y cyfnod ymchwil).
- Er mwyn sicrhau fod y tasgau yn debyg o ran natur, dylid dilyn '**Llwybr Ymholi**'. Bydd hyn hefyd yn sicrhau fod ymgeiswyr yn defnyddio ac yn cymhwyso'r sgiliau a amlinellwyd yn '*Rheoliadau asesu dan reolaeth TGAU ar gyfer Daearyddiaeth*'.
- Bydd y dasg gwaith maes yn cael ei gosod ar ffurf pwnc generig. Rhaid i'r ganolfan roi tasg yn ei chyd-destun i'r ymgeiswyr. Bydd angen i'r ymgeiswyr ddilyn llwybr ymholiad i sicrhau mynediad i holl rannau'r cynllun marcio.
- Gellir gwneud y gwaith maes unrhyw adeg yn ystod y gylchred ddwy flynedd. Bydd yr ymgeiswyr yn dilyn cyfarwyddiadau'r athro a gallant weithio mewn grwpiau ar gyfer casglu data a gallant drafod darganfyddiadau gyda'r athro. Y ganolfan sydd yn penderfynu hyd yr amser ar gyfer y gwaith maes a bydd hyn yn dibynnu ar y cyd-destun ond yn ôl pob tebyg ni ddylai gymryd mwy nag un diwrnod. Gall y gwaith maes gael ei arwain gan yr athro neu gall fod yn seiliedig ar y ganolfan faes a'i ddarparu gan ddarparwr. Gall y ganolfan faes ddarparu cyfle ar gyfer gwneud y dasg a asesir dan reolaeth dros gyfnod cryno o amser.
- Yn ystod y cyfnod ymchwilio/casglu data ni fydd angen i'r holl ymgeiswyr fod yn yr un man ar yr un pryd. Byddant yn gallu ymchwilio a chyflwyno eu data cynradd ac eilaidd gan ddefnyddio unrhyw rai o'r adnoddau sydd ar gael yn y ganolfan, ond bydd rhaid iddynt gynnwys rhestr lawn o adnoddau a ddefnyddiwyd gan gynnwys gwefannau. Bydd disgwyl i ganolfannau ddilysu fod yr ymgeiswyr wedi cwblhau eu gwaith ymchwil o dan arolygaeth a bod yr holl ddeunyddiau a gasglwyd ac a goladwyd yn cael eu monitro a'u storio'n ddiogel. Bydd yr athro yn penderfynu pa ddeunyddiau y gellir eu trawsgludo i'r cam nesaf.
- Ni ddylai'r camau dadansoddi a gwerthuso gymryd mwy na 5 awr i'w cwblhau a bydd yr athro yn sicrhau fod lefel uchel o reolaeth yn cael ei chynnal drwy arolygu ac na fydd unrhyw gydweithio yn digwydd rhwng yr ymgeiswyr.
- Gall y gwaith fod mewn llawysgrifen a'i gynhyrchu â llaw ac anogir sgiliau cartograffig. Fodd bynnag, lle ceir cyfleoedd i ddefnyddio TGCh a thechnoleg newydd i gael mynedfa i SGD (GIS), i goladu darganfyddiadau gwaith grŵp a chyflwyno canlyniadau, dylid hyrwyddo hyn.
- Fe ddefnyddir cynllun marcio cyffredin ar gyfer dibenion asesu. Bydd hyn yn sicrhau bod y dasg yn cwrdd â'r holl amcanion asesu sy'n berthnasol i Wybodaeth a Dealltwriaeth, Cymhwyso a Sgiliau.

Llwybr yr Ymholiad

Dylai'r gwaith a gynhrychir gan ymgeiswyr adlewyrchu'r llwybr ymholi isod.

Dyma'r camau a awgrymir ar gyfer ymholiad daearyddol:

Gosod Tasg

Tasg a osodir yn allanol ar gyfer ymchwilio, wedi ei dewis o ddeusiadau bob blwyddyn. Bydd yn cael ei rhoi mewn cyd-destun a'i datblygu gan yr athro o safbwynt cwestiwn/cwestiynau i'w trafod neu broblem i'w datrys neu fater i'w ymchwilio. Diffinnir amcanion yr ymchwiliad yn benodol. Trafodir y meini prawf asesu.

**Ymgymryd â Thasg (Cyfnod Cynllunio/Cyn y Gwaith Maes)**

Gwneir penderfyniadau ynglŷn â'r data. Pa dystiolaeth sy'n berthnasol? Sut y gellir casglu'r dystiolaeth? Pa batrwm samplu y dylid ei ddefnyddio? Dylid annog myfyrwyr i gynorthwyo i gynllunio a llunio'r gwaith maes ac i ddod o hyd i ddata cefnogol.

**Ymgymryd â Thasg (Cam Gwaith Maes) Hyd at un diwrnod**

Y dystiolaeth yn cael ei chasglu a'i chofnodi.

**Ymgymryd â Thasg (Cyfnod Ymchwilio) Hyd at 5 awr**

Cyflwyno'r dystiolaeth.



Y dystiolaeth yn cael ei phrosesu a'i chyflwyno'n ystadegol a graffigol.

**Ymgymryd â Thasg (Cam Dadansoddi a Gwerthuso) Hyd at 5 awr**

Mwy o ddethol a mireinio'r dystiolaeth, yn ogystal â'i dadansoddi a'i dehongli.



Llunio casgliadau sy'n berthnasol i'r amcanion gwreiddiol.



Gwerthuso'r ymchwiliad mewn perthynas â chyfyngiadau'r dystiolaeth a dilysrwydd y casgliadau. Awgrymir gwelliannau neu ymchwil pellach.

Wrth baratoi ymgeiswyr ar gyfer y cyfnod dadansoddi a gwerthuso, dylai athrawon ddarparu canllawiau ar sut y cymhwysir y cynllun marcio. Cyn ymgymryd â'r ymholiad, dylai ymgeiswyr gydnabod:

- bod angen iddynt ddangos eu **gwybodaeth a'u dealltwriaeth (AA1)** o'r lle a'r syniadau allweddol sy'n graidd i'r ymchwiliad. Bydd disgwyl iddynt allu dethol, dwyn i gof a chyfathrebu gwybodaeth sy'n ymwneud â chysyniadau a theorïau daearyddol cysylltiedig gan ddefnyddio termau daearyddol arbennig.
- bod angen **cymhwyso (AA2)** eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r lle a'r mater a astudir i'w hastudiaethau daearyddol ehangach, yn enwedig gyda chyfeiriadau at leoedd eraill. Yn ogystal, dylent fod yn gallu gofyn cwestiynau daearyddol perthnasol sy'n ymwneud â'r ymholiad ac ystyried datblygiadau'r dyfodol.
- y dylent allu dangos ystod o **sgiliau daearyddol (AA3)** megis:
 - dethol a phrosesu data gan ddefnyddio ystod o dechnegau a allai gynnwys defnyddio sgiliau graffigol, anodi ffotograffau a/neu frasluniau, defnyddio darluniau, mapio, mireinio deunyddiau a gafwyd o ffynonellau TGCh
 - gallu i ddisgrifio, dadansoddi a dehongli tystiolaeth cyn dod i gasgliadau perthnasol i gwestiwn canolog yr ymholiad ac i'r cwestiynau daearyddol ehangach sy'n cael eu hystyried
 - gwerthuso'r dulliau o gasglu, cyflwyno a dadansoddi tystiolaeth, a dilysrwydd a chyfyngiadau'r dystiolaeth a'r casgliadau
 - cyflwyno'r ymholiad mewn olyniad rhesymegol a defnyddio sgiliau cyfathrebu effeithiol.

Cynllun Marcio ar gyfer yr ymholiad gwaith maes:

Lefel	Marc	Disgrifydd
Gwybodaeth a Dealltwriaeth (AA1)		
4	7 – 8	Mae'r ymgeisydd yn gallu dwyn i gof, dethol a chyfathrebu gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth drylwyr sy'n berthnasol i gwestiwn neu ddamcaniaeth yr ymholiad ac mae'n gallu ffurfio casgliadau manwl sy'n gyfan gwbl gyson â'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Defnyddir y derminoleg ddaearyddol yn gywir ac yn briodol.
3	5 - 6	Mae'r ymgeisydd yn gallu dwyn i gof, dethol a chyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n berthnasol i gwestiwn neu ddamcaniaeth yr ymholiad ac yn gallu dod i gasgliadau cadarn sy'n gyson â'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Defnyddir y derminoleg ddaearyddol yn briodol.
2	3 - 4	Mae'r ymgeisydd yn gallu dwyn i gof a chyfathrebu rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n berthnasol i gwestiwn neu ddamcaniaeth yr ymholiad ac yn gallu dod i gasgliadau syml a gefnogir gan y dystiolaeth a gyflwynir. Mae syniadau yn cael eu cyfathrebu gan ddefnyddio rhywfaint o derminoleg ddaearyddol.
1	1 – 2	Mae'r ymgeisydd yn gallu dwyn i gof a chyfathrebu rhai ffeithiau yn berthnasol i gwestiwn neu ddamcaniaeth yr ymholiad gyda dealltwriaeth gyfyngedig. Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno adroddiad sy'n bennaf yn ddisgrifiadol a'r casgliadau yn brin neu'n cael eu cyflwyno'n anaml.
	0	Nid oes unrhyw dystiolaeth yn cael ei chyflwyno neu mae'r ymateb yn annigonol i gwrdd â'r disgrifydd ar gyfer Lefel 1.

Cymhwysio (AA2)





- | | | |
|---|---------|--|
| 4 | 10 - 12 | Mae'r ymgeisydd yn gallu, yn annibynnol, cymhwysio ei wybodaeth fanwl a'i ddealltwriaeth o'r ymholiad i'w astudiaeth ddaeryddol ehangach o safbwynt syniadau, cysyniadau a theorïau daearyddol ac i leoliadau eraill. Mae'n gallu gosod mewn cyd-destun darganfyddiadau'r ymholiad mewn perthynas â chwestiynau daearyddol ehangach a dod i gasgliadau craff a gwybodus. |
| 3 | 7 - 9 | Mae'r ymgeisydd yn gallu, yn annibynnol, cymhwysio ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r ymholiad i rai agweddau o'i astudiaeth ddaeryddol ehangach, hwyrach mewn perthynas â syniadau a chysyniadau daearyddol. Efallai y byddant yn gallu gosod darganfyddiadau'r ymholiad mewn cyd-destun a holi cwestiynau daearyddol ehangach a llunio casgliadau addas. |
| 2 | 4 - 6 | Mae'r ymgeisydd yn gallu cymhwysio rhywfaint o'i wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r ymholiad i'w astudiaeth ddaeryddol ehangach a llunio ychydig gasgliadau. |
| 1 | 1 - 3 | Yr ymgeisydd yn gallu cymhwysio gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig yr ymholiad i'w astudiaeth ddaeryddol ehangach a llunio casgliadau cyfyngedig. |
| | 0 | Nid oes unrhyw dystiolaeth yn cael ei chyflwyno neu mae'r ymateb yn annigonol i gwrdd â'r disgrifydd ar gyfer Lefel 1. |

Sgiliau (AA3)

- | | | |
|---|---------|---|
| 4 | 16 - 20 | Mae'r ymgeisydd yn adnabod cwestiynau a materion perthnasol ac yn adnabod dilyniannau addas i ymgymryd ag ymchwiliad yn annibynnol. Mae'n dethol, gwerthuso a defnyddio'n gywir ystod eang o sgiliau perthnasol a thechnegau priodol a thechnolegau ar gyfer casglu, cofnodi, dethol, prosesu, mireinio a chyflwyno data cynradd ac eilaidd. Mae ef/hi yn dadansoddi a dehongli gwybodaeth o ystod o wahanol ffynonellau (gan gynnwys mapiau ar wahanol raddfeydd, delweddaeth daear, o'r awyr ac o loeren, SGD (GIS), diagramau a thablau) mewn olyniad rhesymegol ac yn adlewyrchu dilysrwydd a chyfyngiadau'r dystiolaeth a'r casgliadau. Mae sgiliau cyfathrebu wedi eu datblygu'n dda, mae'r testun yn ddarllenadwy ac yn ystyrlon ac mae'r ymgeiswyr yn gallu sillafu, atalnodi a defnyddio rheolau gramadeg gyda chywirdeb sydd bron yn ddi-fai. |
| 3 | 11 - 15 | Mae'r ymgeisydd yn adnabod cwestiynau a materion ac yn adnabod dilyniannau addas ar gyfer ymchwilio yn annibynnol. Mae'n dethol a defnyddio, gyda chywirdeb rhesymol, ystod o sgiliau perthnasol a thechnegau a thechnolegau priodol ar gyfer casglu, cofnodi, dethol, prosesu, mireinio a chyflwyno data cynradd ac eilaidd. Mae ef/hi yn dadansoddi a dehongli tystiolaeth yn rhesymegol o wahanol ffynonellau (gan gynnwys mapiau ar wahanol raddfeydd, delweddaeth ddaear o'r awyr ac o loeren, diagramau a thablau) ac yn gallu mynegi barn ar rai o gyfyngiadau'r dystiolaeth a'r casgliadau. Sgiliau cyfathrebu wedi eu datblygu'n dda, mae'r testun yn ddarllenadwy ac yn cyfleu ystyr ac mae'r ymgeisydd yn gallu sillafu, atalnodi a defnyddio rheolau gramadeg gyda chywirdeb. |

- | | | |
|---|--------|---|
| 2 | 6 – 10 | Mae'r ymgeisydd yn dethol a defnyddio rhai sgiliau, technegau a thechnolegau gyda rhywfaint o gywirdeb ar gyfer ymgymryd ag ymchwiliad ac i gasglu, cofnodi, dethol, prosesu, mireinio a chyflwyno data cynradd ac eilaidd mewn olyniaeth weddol resymegol ac yn gallu llunio rhai casgliadau syml a mynegi barn ar y gwaith a wnaethpwyd. Mae ef/hi yn gallu dangos rhywfaint o gymhwyster mewn sillafu, atalnodi a gramadeg. |
| 1 | 1 – 5 | Mae'r ymgeisydd yn dethol a defnyddio gyda chywirdeb cyfyngedig rai sgiliau, technegau a thechnolegau i ymgymryd â'r ymchwiliad. Mae'n gallu casglu, cofnodi, prosesu, mireinio a chyflwyno ychydig ddata cynradd ac eilaidd ond gall y wybodaeth gael ei chyflwyno heb olyniaeth resymegol neu heb strwythur. Defnyddir tystiolaeth gyfyngedig i geisio dod i gasgliadau sylfaenol. Ceir gwendidau arwyddocaol o ran sillafu, atalnodi a gramadeg. |
| | 0 | Nid oes unrhyw dystiolaeth yn cael ei chyflwyno neu mae'r ymateb yn annigonol i gwrdd â'r disgrifydd ar gyfer Lefel 1. |

Crynodeb


<p>Gosod tasg (Lefel Uchel o Reolaeth)</p> 	<p>CBAC</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn cyhoeddi tasgau generig ar wefan CBAC • yn gosod y meini prawf, lefelau ymateb a'r amseru ar gyfer y dasg estynedig • yn gosod canllawiau ar gyfer y gwaith ymchwil - casglu data cynradd (drwy waith maes) a data eilaidd • yn darparu arweiniad a gymeradwyr gan Ymgynghorydd pan fo'r canolfannau yn gofyn am hyn <p>Yr Athro</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn dewis y dasg/tasgau o'r dewisiadau sydd ar gael • yn rhannu amcanion, meini prawf asesu a llwybr ar gyfer ymholi gyda'r ymgeiswyr • yn addasu'r dasg o safbwynt lleoliad; adnoddau a thechnegau a ddefnyddir wrth gasglu data cynradd (gwaith maes); yr adnoddau eilaidd sydd ar gael; diffinio cwestiynau sy'n rhoi trefn ar y gwaith • yn gallu anfon syniadau / newidiadau er gwell i'r Ymgynghorydd
<p>Cyfnod ymchwilio (Lefel Gyfyngedig o Reolaeth)</p> 	<p>Gweithredir yr ymchwil a'r gwaith maes rhagarweiniol. Yr ymgeiswyr yn ymchwilio a chynrychioli data cynradd ac eilaidd gan ddefnyddio unrhyw rai o'r adnoddau sydd ar gael yn y ganolfan, ond rhaid cynnwys rhestr lawn o'r adnoddau gan gynnwys gwefannau (dim mwy na 5 awr).</p> <p>Bydd gofyn i ganolfannau ddilysu ymhle a pha bryd y gwnaeth yr ymgeiswyr wneud eu gwaith ymchwil a'i gwblhau o dan arolygiaeth a bod yr holl ddeunyddiau wedi eu monitro a'u storio'n ddiogel (Ffurflen CAA 2).</p> <p>Yr athro sy'n penderfynu pa ddeunyddiau y gellir eu trosglwyddo i'r cyfnod nesaf.</p>
<p>Cyfnod Dadansoddi a Gwerthuso (Lefel Uchel o Reolaeth)</p> 	<p>Mae'r ymgeiswyr yn dechrau ysgrifennu'r dasg (dim mwy na 5 awr) o dan amodau rheoledig. Ni chaiff yr athro roi unrhyw gymorth ar wahân i gyngori ar y defnydd gorau o'u hamser.</p> <p>Mae gwahaniaethu yn cael ei hwyluso drwy ymgeiswyr yn llunio eu gwaith ysgrifenedig o amgylch eu llwybr ymholi a detholiad o gwestiynau sy'n rhoi trefn i'r gwaith.</p> <p>Ymgeiswyr yn defnyddio data cynradd / data wedi eu cyfuno ac adnoddau eilaidd i gwblhau'r dasg.</p>
<p>Marcio a Safoni (Lefel Ganolig o Reolaeth)</p> 	<p>Yr athro'n marcio'r gwaith gan ddefnyddio'r cynllun marcio penodedig. Bydd safoni mewnol yn digwydd lle mae mwy nag un athro yn asesu'r garfan.</p> <p>Cyflwynir sampl o waith, gyda'r tafenni clawr priodol, i'r safonwr a bennwyd gan CBAC. Unwaith y cyflwynir y marciau i gyd ar-lein (ar ôl 10 Mawrth) bydd enwau'r ymgeiswyr y mae eu gwaith i'w anfon yn y sampl yn cael ei roi i'r canolfannau a bydd modd i'r canolfannau hefyd weld enw a chyfeiriad y safonwr cyn anfon y gwaith a'r gwaith papur perthnasol at y safonwr.</p>

Tasg 2 – Datrys problem/penderfynu (15% o'r asesiad dan reolaeth)

- Gall canolfannau drafod gyda'r Ymgynghorydd sut y gellir gosod y dasg mewn cyd-destun a fyddai'n gweddu orau i ymgeiswyr y ganolfan. Mae hyn yn cynnwys y dewisiadau ar gyfer cyflwyno y dylai'r ymgeiswyr eu defnyddio, addasrwydd yr adnoddau a ddefnyddir a'r amser sydd ei angen ar gyfer y cyfnod ymchwilio/casglu data. Dylai hyn gymryd hyd at 5 awr.
- Bydd y dasg yn seiliedig ar fater lle ceir gwahanol farnau a / neu bersbectifau daearyddol a lle y gall fod strategaethau eraill. Er mwyn gofalu bod y tasgau yn debyg o ran natur, dylid dilyn '**Canllawiau ar gyfer Ymchwil**' er mwyn sicrhau fod pob rhan o'r cynllun marcio yn cael ei gydnabod a'i ddefnyddio a defnyddio a chymhwyso sgiliau a amlinellir yn '*Rheoliadau asesu dan reolaeth TGAU ar gyfer Daearyddiaeth*'.
- Gall y gwaith fod wedi ei gynhyrchu a'i ysgrifennu â llaw. Fodd bynnag, lle mae cyfleoedd i'w cael i ddefnyddio TGCh a thechnoleg newydd, dylid annog y defnydd o SGD (GIS) a chyflwyno canlyniadau ar e.e. podlediadau, fideo ayb.
- Bydd cynllun marcio cyffredin yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion asesu. Bydd hyn yn sicrhau bod y dasg yn cwrdd â'r holl amcanion asesu sy'n ymwneud â Gwybodaeth a Dealltwriaeth, Cymhwyso a Sgiliau.
- Ni ddylai'r cyfnod dadansoddi a gwerthuso gymryd mwy nag 8 awr i'w gwblhau a bydd yr athro yn sicrhau bod lefel uchel o reolaeth yn cael ei chynnal drwy gydol y goruchwyllo.

Wrth baratoi ymgeiswyr ar gyfer y cyfnod dadansoddi a gwerthuso, dylai'r athrawon gynnig canllawiau i'r ymgeiswyr ar sut y dylid cymhwyso'r cynllun marcio. Cyn ymgymryd â'r ymholiad, dylai ymgeiswyr gydnabod bod angen iddynt:

- ddangos eu **gwybodaeth a'u dealltwriaeth (AA1)** o gysyniadau a theorïau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn, gan ddefnyddio termau daearyddol arbenigol
- **cymhwyso (AA2)** eu **gwybodaeth a'u dealltwriaeth** o gysyniadau a theorïau perthnasol i'r cwestiwn. Mae'r ymgeisydd yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar strategaethau eraill neu yn awgrymu datrysiad i'r gwahanol ddewisiadau ac yn cyfiawnhau'r casgliadau
- gallu dangos ystod o **sgiliau** daearyddol (**AA3**) megis:
 - ymchwilio i ddeunyddiau gwreiddiol a'u prosesu gan ddefnyddio ystod o dechnegau a allai gynnwys defnyddio sgiliau graffigol, anodi ffotograffau, defnyddio lluniau, mapio, mireinio deunyddiau a geir o ffynonellau TGCh
 - pwysu a mesur rhinweddau cymharol gwahanol ddewisiadau cyn cyfiawnhau eu dewis eu hunain
 - defnyddio sgiliau cyfathrebu effeithiol i gyflwyno'r syniadau.



Cynllun marciau ar gyfer Tasg 2

Lefel	Marc	Disgrifydd
Gwybodaeth a Dealltwriaeth (AA1)		
4	10 – 12	Mae'r ymgeisydd yn gallu dwyn i gof, dethol a chyfathrebu gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth drylwyr sy'n berthnasol i'r cwestiwn ac i'r lleoliad. Defnyddir terminoleg ddaearyddol yn gywir a phriodol.
3	7 - 9	Mae'r ymgeisydd yn gallu dwyn i gof, dethol a chyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n berthnasol i'r cwestiwn ac i'r lleoliad. Defnyddir terminoleg ddaearyddol yn briodol.
2	4 - 6	Mae'r ymgeisydd yn gallu dwyn i gof a chyfathrebu rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n berthnasol i'r cwestiwn ac i'r lleoliad. Syniadau yn cael eu cyfleu drwy ddefnyddio rhywfaint o derminoleg ddaearyddol.
1	1 – 3	Mae'r ymgeisydd yn gallu dwyn i gof a chyfathrebu rhai ffeithiau sy'n berthnasol i'r cwestiwn ac i'r lleoliad gyda dealltwriaeth gyfyngedig.
	0	Nid oes unrhyw dystiolaeth yn cael ei chyflwyno neu mae'r ymateb yn annigonol i gwrdd â'r disgrifydd ar gyfer Lefel 1.





Cymhwyso (AA2)

4	22 - 28	Mae'r ymgeisydd yn gallu, yn annibynnol, cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau a'r syniadau perthnasol i gyd-destun gwneud penderfyniad. Mae'n gallu deall ac egluro cysylltiadau cymhleth rhwng pobl a'r amgylchedd, gwerthuso'r broblem neu'r mater a gwneud penderfyniadau craff a gwybodus yn seiliedig ar ddealltwriaeth eglur o sut y gall y rhain gyfrannu at ddyfodol sy'n gynaliadwy
3	15 - 21	Mae'r ymgeisydd yn gallu, yn annibynnol, cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau a'r syniadau perthnasol i gyd-destun gwneud penderfyniad ac yn gallu deall cysylltiadau rhwng pobl a'r amgylchedd, egluro'r broblem neu'r mater a gwneud penderfyniadau rhesymegol sy'n dangos dealltwriaeth o ddulliau cynaliadwy.
2	8 - 14	Mae'r ymgeisydd yn gallu cymhwyso rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau a'r syniadau perthnasol i gyd-destun gwneud penderfyniadau ac yn gallu dangos rhywfaint ar y cysylltiadau rhwng pobl a'r amgylchedd. Mae'n deall y broblem neu'r mater mewn modd sylfaenol ac yn gwneud penderfyniadau gan roi ychydig resymau a thystiolaeth.
1	1 – 7	Mae'r ymgeisydd yn gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig o rai syniadau i'r cyd-destun gwneud penderfyniadau ac yn gallu adnabod cysylltiadau syml rhwng pobl a'r amgylchedd. Mae'n adnabod y broblem neu'r mater mewn ffordd sylfaenol iawn ac yn gwneud penderfyniadau ar sail rhesymau a thystiolaeth syml.
	0	Nid oes unrhyw dystiolaeth yn cael ei chyflwyno neu mae'r ymateb yn annigonol i gwrdd â'r disgrifydd ar gyfer Lefel 1.

Sgiliau (AA3)

4	16 – 20	Mae'r ymgeisydd yn gallu, yn annibynnol, dethol, gwerthuso a defnyddio'n gywir ystod eang o sgiliau perthnasol a thechnegau a thechnolegau priodol ar gyfer ymchwilio a chofnodi'n gywir ystod o dystiolaeth addas. Mae'n dadansoddi a dehongli gwybodaeth ac yn ystyried cyfyngiadau'r dystiolaeth ac yn adnabod rhagfarn wrth fynegi barn wybodus a phenderfyniad rhesymegol. Sgiliau cyfathrebu wedi datblygu i safon uchel ac mae'r ymgeisydd yn gallu pwysu a mesur y dystiolaeth sydd ar gael a chyflwyno dadl hynod o resymegol. Mae'r dull cyflwyno yn gyfan gwbl briodol.
3	11 – 15	Mae'r ymgeisydd yn annibynnol yn dethol a defnyddio, gyda chywirdeb rhesymol, ystod o sgiliau perthnasol a thechnegau a thechnolegau priodol ar gyfer ymchwilio a chofnodi tystiolaeth briodol. Mae'n dadansoddi a dehongli tystiolaeth o wahanol ffynonellau ac yn adnabod rhai o'i chyfyngiadau ar gyfer dod i benderfyniad call. Mae'r sgiliau cyfathrebu wedi eu datblygu'n dda ac mae'r ymgeisydd yn gallu cyflwyno syniadau'n rhesymegol. Mae'r dull cyflwyno yn briodol.
2	6 – 10	Mae'r ymgeisydd yn dethol ac yn defnyddio, gyda rhywfaint o gywirdeb, rai sgiliau, technegau a thechnolegau ar gyfer ymchwilio a chofnodi tystiolaeth sy'n berthnasol i'r cwestiwn. Mae'n dehongli tystiolaeth o rai ffynonellau ar gyfer dod i benderfyniad gyda rhywfaint o strwythur a chysylltedd. Mae'r sgiliau cyfathrebu yn gymwys.
1	1 – 5	Mae'r ymgeisydd yn dethol ac yn defnyddio, gyda chywirdeb cyfyngedig, rai sgiliau, technegau a thechnolegau ar gyfer ymchwilio a chofnodi rhywfaint o dystiolaeth berthnasol. Mae'n dehongli tystiolaeth ar gyfer dod i benderfyniad sylfaenol, er y mae'n bosib y bydd strwythur cyfyngedig i'r gwaith. Gwan yw'r sgiliau cyfathrebu.
	0	Nid oes unrhyw dystiolaeth yn cael ei chyflwyno neu mae'r ymateb yn annigonol i gwrdd â'r disgrifydd ar gyfer Lefel 1.

Crynodeb

<p>Gosod tasg (Lefel Uchel o Reolaeth)</p> 	<p>CBAC</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn cyhoeddi tasgau generig ar wefan CBAC • yn gosod y meini prawf, lefelau ymateb a'r amseru ar gyfer y dasg estynedig • yn gosod canllawiau ar gyfer y gwaith ymchwil • yn darparu arweiniad a gymeradwyr pan fo'r canolfannau yn gofyn am hyn <p>Yr Athro</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn dewis y dasg/tasgau o'r themâu dewisol sydd ar gael • yn rhannu amcanion, meini prawf asesu a chanllawiau gyda'r ymgeiswyr • yn gosod y dasg mewn cyd-destun o safbwynt lleoliad; adnoddau sydd ar gael; diffinio cwestiynau sy'n rhoi trefn ar y gwaith • yn gallu anfon syniadau / newidiadau at Ymgynghorydd CBAC
<p>Cyfnod Ymchwilio (Lefel Gyfyngedig o Reolaeth)</p> 	<p>Cyfnod o ymchwilio (dim mwy na 5 awr). Ymgeiswyr yn dethol a phrosesu data gan ddefnyddio unrhyw rai o'r adnoddau sydd ar gael yn y ganolfan, ond rhaid ychwanegu rhestr lawn o'r adnoddau a ddefnyddiwyd gan gynnwys gwefannau.</p> <p>Bydd disgwyl i ganolfannau ddilysu ymhle a pha bryd y gwnaeth ac y cwblhaodd yr ymgeiswyr y gwaith ymchwil o dan oruchwyliaeth a bod yr holl ddeunyddiau a gasglwyd a'u coladu yn cael eu monitro a'u storio yn ddiogel. (Ffurflen CAA 3). Yr athro yn penderfynu pa ddeunyddiau y gellir eu trosglwyddo i'r cyfnod nesaf.</p>
<p>Cyfnod Dadansoddi a Gwerthuso (Lefel Uchel o Reolaeth)</p> 	<p>Yr ymgeiswyr yn dechrau mireinio eu cyflwyniad (dim mwy nag 8 awr) o dan amodau rheoledig. Ni chaniateir unrhyw fewnbwn gan yr athro ar wahân i gynnig arweiniad dros y defnydd o amser.</p> <p>Mae gwahaniaethu yn cael ei hwyluso drwy ymgeiswyr yn llunio eu gwaith ysgrifenedig o amgylch y canllawiau a rhai cwestiynau dethol sy'n rhoi trefn, eu detholiad o ddata a dull cyflwyno.</p> <p>Ymgeiswyr yn dadansoddi a dehongli'r data ar gyfer dod i benderfyniad.</p>
<p>Marcio a Safoni (Lefel Ganolig o Reolaeth)</p> 	<p>Yr athro yn marcio'r gwaith gan ddefnyddio'r cynllun marcio penodedig. Safoni mewnl yn digwydd lle mae mwy nag un athro yn asesu'r garfan.</p> <p>Cyflwynir sampl o waith, gyda'r taflenni clawr priodol, i'r safonwr a bennwyd gan CBAC. Rhoddir manylion am weinyddu'r gwaith a asesir yn fewnl yn Llawlyfr Asesu Mewnl CBAC. Unwaith y cyflwynir y marciau i gyd ar-lein (ar ôl 10 Mawrth) bydd enwau'r ymgeiswyr y mae eu gwaith i'w anfon yn y sampl yn cael ei roi i'r canolfannau a bydd modd i'r canolfannau hefyd weld enw a chyfeiriad y safonwr cyn anfon y gwaith a'r gwaith papur perthnasol at y safonwr.</p>

Anodi'r Asesiad dan Reolaeth

Rhaid anodi gwaith ymgeiswyr sy'n cael ei gyflwyno i'w safoni.

Gellir cyflawni hyn drwy:

- (i) roi sylwadau cyfansymiol ar daflenni clawr yr asesiad dan reolaeth (CAA 2 a 3);
- (ii) anodi tasgau asesu dan reolaeth yr ymgeiswyr h.y. ar yr ymyl neu yn y testun. Dylai hyn fod yn gryno ac i'r pwynt. Dylid tynnu sylw pan mae ymgeiswyr yn darparu tystiolaeth o gyraedd lefel benodol o berfformio mewn perthynas â'r amcanion asesu neu lle ceir camgymeriadau amlwg (e.e. camgymeriadau ffeithiol, dehongli, diffinio a theori) a lle mae'r gwaith yn amherthnasol.

Diben anodi yw cynorthwyo'r safonwr i ddeall yn well sut y mae'r athro wedi penderfynu ar y marc a ddyfarnwyd i'r ymgeisydd.

Safoni'r Asesiad dan Reolaeth yn Fewnol

Rhaid i ganolfannau sicrhau fod safoni gofalus yn cael ei weithredu lle mae mwy nag un athro yn gyfrifol am farcio'r asesiad dan reolaeth. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau unffurdedd safonau o fewn canolfan. Lle mae safoni mewnol yn angenrheidiol dylai'r athro sy'n ymgymryd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y broses hon ddarparu amlinelliad ysgrifenedig o'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer y safonwr allanol.

Safoni'r Asesiad dan Reolaeth yn Allanol

Bydd safoni asesiad yr athro yn digwydd drwy i CBAC archwilio'r Asesiad dan Reolaeth. Fe hysbysir canolfannau o'r dyddiad cyflwyno ar gyfer y Tasgau dan Reolaeth yn yr Amserlen Arholiadau a gyhoeddir.

Mae *Llawlyfr Asesu Mewnol* CBAC yn rhoi cyfarwyddiadau am weinyddu gwaith a aserir yn fewnol.

O ganlyniad i'r safoni, efallai y caiff marciau ymgeiswyr eu haddasu fel bod marciau'r ganolfan yn cydymffurfio â'r safon genedlaethol. Os bydd angen, bydd y safonwr yn gofyn am samplau ychwanegol o waith ac os bydd angen, efallai y gelwir am waith yr holl ymgeiswyr a'i safoni'n allanol waeth beth fo'r rhifau cofrestru. Yn yr achos hwn, bydd yr holl asesiadau dan reolaeth yn cael eu postio at y safonwr.

Byddai o gymorth sylweddol o hyd i'r broses safoni pe cyflwynid marciau terfynol pob ymgeisydd i'r safonwr ar y ffurflen CAA1 yn y drefn restrol.

Os bydd pryderu ynghylch dulliau gweithredu'r dyfarnu, bydd y broses apelio arferol yn weithredol.

Dilysu

Noder ei bod yn ofynnol gan y rheoleiddwyr i gael llofnod ar bob ffurflen.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gadarnhau yn ysgrifenedig gan nodi unrhyw eithriadau, fod y gwaith wedi ei gwblhau heb unrhyw gymorth. Gellir cyflawni hyn drwy lofnodi taflen glawr yr asesiad dan reolaeth CAA 2 a 3.

Bydd yn ofynnol i athrawon gadarnhau yn ysgrifenedig fod yr holl waith a gyflwynir i'w safoni, cyn belled ag y gwyddont, yn waith yr ymgeisydd ei hun heb gymorth gan neb. Cyflawnir hyn drwy lofnodi'r daflen farciau cyfansawdd (CA1) a thafleni clawr yr asesiad dan reolaeth CAA 2 a 3.

Dylid nodi manylion llawn am unrhyw gymorth a roddwyd i ymgeiswyr penodol sy'n wahanol i'r cymorth a roddwyd i'r grŵp addysgu cyfan ar CAA 2 a 3 a dylid ystyried hyn wrth asesu'r asesiad dan reolaeth.

Cofnodi Marciau'r Asesiad dan Reolaeth

Bydd ffurflen CAA1 yn cael ei defnyddio ar gyfer cofnodi marciau sydd i'w hanfon at y safonwr. Dylid nodi'r ymgeiswyr mewn trefn restrol a chynnwys yr ymgeiswyr hynny'n unig a ddetholwyd gan system ar-lein CBAC.

Rhaid marcio'r tasgau ar y cyd allan o 100.

Cyflwyno'r Asesiad dan Reolaeth

Dylid cyflwyno'r canlynol:

- copïau o'r tasgau;
- nodiadau arweiniad cyffredinol a roddwyd i ymgeiswyr;
- rhestr o ddeunyddiau adnoddau a roddwyd i ymgeiswyr;
- y taflenni marciau cynhwysfawr (CAA1);
- yr asesiad dan reolaeth mewn rhwymell neu ffolder clawr meddal gyda'r taflenni clawr (CAA 2/3) ar y blaen.

Ni ddylid cyflwyno deunydd y gall ymgeiswyr fod wedi'i gaffael yn eu hymchwil, megis copïau lluosog o holiaduron a deunydd rhagargraffedig oddi wrth sefydliadau.

Dychwelyd yr Asesiad dan Reolaeth

Bydd y safonwr yn dychwelyd y gwaith i ganolfannau unwaith bydd y broses safoni wedi ei chwblhau. Bydd sampl o'r gwaith yn cael ei anfon at y Prif Safonwr ac efallai yn cael ei gadw i'w ddefnyddio adeg Dyfarnu neu HMS neu fel deunydd enghreifftiol.

Cadw'r Asesiad dan Reolaeth

Mae angen i ganolfannau gadw'r asesiadau dan reolaeth tan ddiwedd mis Tachwedd ar ôl Arholiad yr Haf.

6

DISGRIFIADAU O'R GRADDAU

Darperir disgrifiadau o'r graddau er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad sy'n debygol o fod wedi'u dangos gan ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys a bennir gan y fanyleb; ni fwriedir iddynt ddiffinio'r cynnwys hwnnw.

Yn ymarferol, bydd y radd a ddyfernir yn dibynnu ar faint llwyddiant yr ymgeisydd i gwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar berfformiad ymgeiswyr yn yr asesiad gael eu cydbwysu gan berfformiadau gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae'r ymgeiswyr yn dwyn i gof, yn dethol ac yn cyfleu gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth drylwyr o leoedd, amgylcheddau, cysyniadau a lleoliadau ar ystod o raddfeydd. Maent yn defnyddio terminoleg ddaearyddol yn gywir ac yn briodol.

Maent yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth priodol o ystod eang o gysyniadau daearyddol, prosesau a phatrymau mewn amrywiaeth o gyd-destunau ffisegol a dynol, cyfarwydd ac anghyfarwydd. Maent yn cydnabod ac yn deall perthnasoedd cymhleth rhwng pobl a'r amgylchedd, yn adnabod a gwerthuso problemau a materion cyfredol, ac yn gwneud penderfyniadau daearyddol sy'n graff a deallus. Maent yn deall sut y gall y rhain gyfrannu at ddyfodol sy'n gynaliadwy.

Maent yn dethol, gwerthuso a defnyddio'n effeithiol ystod eang o sgiliau perthnasol a thechnegau a thechnolegau priodol. Maent yn adnabod y cwestiynau a'r materion perthnasol a sefydlu dilyniannau priodol i ymgymryd ag ymchwiliadau yn annibynnol. Maent yn casglu a chofnodi'n gywir ystod o dystiolaeth briodol o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys gwaith maes. Maent yn dadansoddi a dehongli gwybodaeth a gwerthuso ei dilysrwydd yn feirniadol. Maent yn ystyried cyfyngiadau'r dystiolaeth, yn canfod ac yn ymateb i wahanol farnau/gogwyddiadau er mwyn gwneud dyfarniadau gwybodus a rhesymegol i gyflwyno casgliadau cadarn a phriodol.

Gradd C

Mae'r ymgeiswyr yn dwyn i gof, yn dethol ac yn cyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth o leoedd, amgylcheddau, cysyniadau a lleoliadau ar draws gwahanol raddfeydd. Maent yn defnyddio terminoleg ddaearyddol yn briodol.

Maent yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau, prosesau a phatrymau daearyddol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ffisegol a dynol, cyfarwydd ac anghyfarwydd. Maent yn deall perthnasoedd rhwng pobl a'r amgylchedd, yn adnabod ac egluro problemau a materion gwahanol ac yn gwneud penderfyniadau daearyddol a gefnogir gan resymau, gan gynnwys ymdriniaethau cynaliadwy.

Maent yn dethol ac yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau, a thechnegau a thechnolegau priodol i adnabod cwestiynau a materion i ymgymryd ag ymchwiliadau. Maent yn casglu a chofnodi dystiolaeth addas o wahanol ffynonellau, gan gynnwys gwaith maes. Maent yn dadansoddi a dehongli dystiolaeth ac yn cydnabod bod rhai cyfyngiadau i'r dystiolaeth wrth geisio cyrraedd casgliadau credadwy.

Gradd F

Mae'r ymgeiswyr yn dwyn i gof, yn dethol ac yn cyfleu gwybodaeth a rhai agweddau cyfyngedig o dealltwriaeth o leoedd, amgylcheddau a chysyniadau ar fwy nag un raddfa. Maent yn cyfathrebu eu syniadau gan ddefnyddio iaith bob dydd.

Maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth o rai prosesau a phatrymau ffisegol a dynol syml, o fewn cyd-destunau gwahanol. Maent yn deall perthnasoedd syml rhwng pobl a'r amgylchedd. Maent yn adnabod problemau a materion ac yn gwneud penderfyniadau ar sail rhesymau a thystiolaeth syml.

Maent yn defnyddio sgiliau a nifer cyfyngedig o dechnegau a thechnolegau i ymgymryd ag ymchwiliad. Maent yn casglu a chofnodi detholiad cyfyngedig o dystiolaeth o rai ffynonellau, gan gynnwys gwaith maes. Maent yn dehongli dystiolaeth er mwyn cyrraedd rhai casgliadau sylfaenol.

7

Y CWRICWLWM EHANGACH

Sgiliau Allweddol

Mae Sgiliau Allweddol yn ganolog i astudio TGAU Daearyddiaeth (A) a gellir eu hasesu trwy gynnwys y cwrs a'r cynllun asesu cysylltiedig fel y'u diffinnir yn y fanyleb. Gellir datblygu'r sgiliau allweddol canlynol trwy gyfrwng y fanyleb hon ar lefelau 1 a 2.

- Cyfathrebu
- Datrys problemau
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gweithio gydag Eraill
- Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun

Darperir cyfleoedd i olrhain datblygiad y sgiliau hyn yn erbyn y gofynion tystiolaeth Sgiliau Allweddol yn yr 'Enghreifftio Sgiliau Allweddol ar gyfer Daearyddiaeth (A)', sydd ar gael ar wefan CBAC.

Cyfleoedd i ddefnyddio technoleg

Mae'r fanyleb hon yn darparu cyfleoedd i ymgeiswyr ddefnyddio TGCh ar gyfer cael mynediad i ffynonellau gwybodaeth ychwanegol, a chynorthwyo wrth drafod, cyflwyno a dadansoddi tystiolaeth ddaearyddol. Mae'r cyfleoedd yn amrywio o'r ystafell ddosbarth, lle gall ymgeiswyr gael mynediad i archifau electronig, chwilio am wefannau priodol ar gyfer llyfrgelloedd a'u defnyddio, am asiantaethau amgueddfeydd y llywodraeth, i gyd-destun arholiad lle y gellir seilio, defnyddio a chyflwyno'r tasgau dan reolaeth trwy gyfrwng TGCh.

Materion Ysbrydol, Moesol, Moesegol, Cymdeithasol a Diwylliannol

Mae Daearyddiaeth yn bwnc sy'n gofyn i ymgeiswyr archwilio gweithgaredd pobl a thrwy hynny drafod materion am eu persbectifau, symbyliadau ac adweithiau. Drwy astudio cymdeithasau cyfredol bydd ymgeiswyr yn cael cyfleoedd i ystyried ystod o faterion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol.

Felly, mae'r fanyleb yn darparu fframwaith ac yn cynnwys agweddau penodol sy'n fodd i'r unigolion fynd i'r afael â'r materion hyn. Gall yr asesiad dan reolaeth fod yn fodd o ymestyn dealltwriaeth o'r materion a thrwy hyn annog gwerthfawrogiad cytbwys o'r gwrthdrawiadau a'r dilemâu cysylltiedig. Er enghraifft, mae pob un o'r unedau dewisol yn Uned 2 a'r dasg gwneud penderfyniadau yn galluogi myfyrwyr i drafod materion cynaliadwyedd y dyfodol, materion moesegol o ran cyfrifoldebau'r unigolyn yn ogystal â grŵp a hefyd fynegi safbwyntiau personol.

Enghreifftiau o gyfle datblygu:

Mater Moesegol/Moesol	Asesu mewnol gwaith cwrs sy'n cefnogi tystiolaeth o gyrhaeddiad
Dod i farn foesegol a mynegi safbwyntiau personol	<p><i>Thema 6, Cwestiwn Allweddol 2:</i> Wrth drafod ystyr 'datblygu', gall ymgeiswyr ymchwilio, ar amrywiol raddfeydd a chrynhoi gwybodaeth er mwyn gallu dod i farn foesegol am y perthnasoedd rhwng gwledydd ar lefelau datblygiad gwahanol.</p> <p><i>Thema 9, Cwestiwn Allweddol 3:</i> Pan fydd ymgeiswyr yn egluro pam mae angen i effaith gweithgaredd dynol ar ecosystemau gael ei reoli'n ofalus gallant archwilio goblygiadau moesegol cynaliadwyedd a llunio barn am ei holl rinweddau.</p>

Dinasyddiaeth

Mae'r fanyleb yn cynnig ystod o gyfleoedd ar gyfer myfyrwyr er mwyn iddynt ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a deall dinasyddiaeth. Mae'r cyfleoedd hyn yn arbennig o amlwg yng nghynnwys y fanyleb hon gyda'i phwyslais ar gyd-ddibyniaeth ar ystod o raddfeydd, gan gynnwys yr elfen fyd-eang, materion cynllunio, ansawdd bywyd, a'r cydberthynas bregus rhwng pobl a'u hamgylchedd. Er enghraifft, bydd tystiolaeth o gyrhaeddiad yn cael ei gynhyrchu gan waith dosbarth sy'n edrych ar wahaniaethau lleol neu ranbarthol mewn datblygiad ac, yn y broses, yn ystyried her **cynaliadwyedd** a'r cysyniad o **gyd-ddibyniaeth**.

Enghreifftiau o gyfle datblygu:

Dinasyddiaeth	Asesu mewnol gwaith cwrs sy'n cefnogi tystiolaeth o gyrhaeddiad
Astudiwch faterion ehangach a heriau cyd-ddibyniaeth a chyfrifoldeb byd-eang, yn cynnwys datblygiad cynaliadwy.	Yn berthnasol i'r themâu i gyd ond i Thema 5 yn arbennig. Pan fydd ymgeiswyr yn egluro'r gwahaniaethau rhwng rhanbarthau cyferbyniol mewn gwlad neu rhwng gwledydd, gallant archwilio her cynaliadwyedd a chysyniad cyd-ddibyniaeth.

Materion Amgylcheddol

Mae materion *datblygiad cynaliadwy a chyd-ddibynnol*, sydd wrth wraidd y fanyleb, yn seiliau pwysig ar gyfer adeiladu addysg amgylcheddol. Mae gweithgareddau mewn un man yn arwain at oblygiadau, yn aml rhai anrhagweladwy, mewn mannau eraill, ac mae angen i ymgeiswyr fod yn ymwybodol o hyd a lled canlyniadau anfwriadol gweithredoedd, yn ogystal â goblygiadau llunio ffin rhy gul o amgylch mympwyon costau a buddion.

Ystyriaethau Iechyd a Diogelwch

Mae materion iechyd yn ffurfio agwedd arwyddocaol o Thema Graidd 6 o safbwynt mesurau datblygu yn ogystal â chynnydd i gyflawni Cyrchnodau Datblygiad y Mileniwm. Gall y rhain ddarparu ffocws pwysig ar gyfer astudiaethau achos ac efallai, ar gyfer asesiad dan reolaeth.

Y Dimensiwn Ewropeaidd

Drwy eu hastudiaeth o ddaearyddiaeth, bydd ymgeiswyr yn cryfhau ac yn lledaenu eu hymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n dod â phobloedd a gwledydd Ewrop at ei gilydd.

Mae'r ymdriniaeth uchod yn cydymffurfio â'r dyheadau a fynegwyd ym Mhenderfyniadau 1998 Cyngor y Gymuned Ewropeaidd a chyfarfod y Gweinidogion Addysg o fewn y Cyngor, yn ymwneud â'r dimensiwn Ewropeaidd mewn addysg ac addysg amgylcheddol, yn arbennig y rhai a fwriadwyd ar lefel yr aelod wladwriaethau.